

# Barn Gychwynnol ar Gynllun Cynnwys Allbynnau Cyfrifiad 2021

Ymateb i'r Ymgynghoriad  
Atodiad

# Cynnwys

Cyflwyniad .....	2
Meini prawf gwerthuso .....	4
Pynciau a daearyddiaethau .....	6
System ledaenu hyblyg .....	9
Lledaenu symiau sylweddol o ddata cyfun .....	21
Defnyddio data gweinyddol er mwyn gwella ac ategu allbynnau .....	26
Microdata .....	39
Tarddiad-cyrchfan .....	44
Daearyddiaeth .....	53
Dehongli amcangyfrifon Cyfrifiad 2021: gwybodaeth ategol .....	62
Dehongli amcangyfrifon Cyfrifiad 2021: ffyrdd ehangach o ddefnyddio data'r cyfrifiad at ddibenion dadansoddi .....	68
Cymaroldeb amcangyfrifon Cyfrifiad 2021: Cysoni ledled y DU ac ystadegau'r DU .....	71
Cymaroldeb rhyngwladol canlyniadau Cyfrifiad 2021 .....	78
Camau nesaf .....	81

# Cyflwyniad

Gwnaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol wahodd barn ar ein "Barn Gychwynnol ar Gynllun Cynnwys Allbynnau Cyfrifiad 2021" rhwng 28 Chwefror a 23 Mai 2018. Amlinellodd yr ymgynghoriad hwn ein cynllun arfaethedig cychwynnol ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2021 a'r sianeli lledaenu ar gyfer Cymru a Lloegr.

Ein gweledigaeth yw allbynnau cyfrifiad hyblyg, amserol a hygyrch. Dim ond pan fydd defnyddwyr yn gallu cael gafael ar ystadegau o ansawdd uchel, a gaiff eu rhyddhau am ddim ar y pwynt defnyddio ac mor gyflym â phosibl, y caiff prif fanteision y cyfrifiad eu gwireddu.

Roedd ein barn gychwynnol yn seiliedig ar y canlynol:

- y gwerthusiad o gynllun cynnwys allbynnau Cyfrifiad 2011 a'r ffordd y cawsant eu cyflwyno
- ein dealltwriaeth bresennol o anghenion defnyddwyr a'n gwybodaeth am atebion technolegol a methodolegol posibl
- ein dealltwriaeth bresennol o gostau'r gwaith o ddatblygu a gweithredu allbynnau posibl a system ledaenu
- ein dyheadau o ran defnyddio data gweinyddol er mwyn gwella ac ategu allbynnau

Gwnaeth ein hymgyngoriad gwmpasu pob agwedd ar allbynnau Cyfrifiad 2021, gan gynnwys ein cynlluniau ar gyfer system ledaenu hyblyg i gael gafael ar y rhan fwyaf o ddata'r cyfrifiad, a'r dull rheoli datgelu ystadegol (sy'n diogelu cyfrinachedd). Gwnaethom hefyd amlinellu ein cynlluniau ar gyfer cynhyrchion arbenigol (gan gynnwys microdata a chynhyrchion tarddiad-cyrchfan), daearyddiaeth (gridiau a phlwyfi) a'n dyheadau ar gyfer defnyddio data gweinyddol i wella ac ategu allbynnau.

Cawsom 196 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O blith y rhain, roedd 130 ohonynt gan sefydliadau ac roedd 66 gan unigolion. Hoffem ddiolch i bawb a roddodd eu barn i ni drwy ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ein hymateb i adborth defnyddwyr a gawsom yn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Disgwyliwn i'r wybodaeth a roddir yn yr ymateb hwn fod o'r diddordeb mwyaf i'r rheini sy'n defnyddio data'r cyfrifiad fwyaf aml.

Rydym wedi enwi ymatebwyr mewn perthynas â'r wybodaeth a roddwyd ganddynt yn ein hadroddiad, lle gwnaethant gytuno i hynny.

Fel o'r blaen, cynhelir cyfrifiadau ar wahân yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym yn cydweithio'n agos â Chofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau y gellir cymharu'r canlyniadau ar

Iefel y DU, lle bo hynny'n bosibl. Gwnaeth NRS gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'w Strategaeth ar gyfer Allbynnau Cyfrifiad 2021 ym mis Mehefin 2018<sup>4</sup>. Bydd NISRA yn ymgynghori â defnyddwyr maes o law.

### Ffigur 1: Nifer yr ymatebion sefydliadol fesul sector

Sector	Nifer	Canran
Awdurdod lleol	105	53.6
Academaidd/ymchwil	19	9.7
Elusennol a gwirfoddol	16	8.2
Arall	15	7.7
Masnachol	13	6.6
Corff cyhoeddus (er enghraifft iechyd, trafndiaeth, gwasanaethau brys)	12	6.1
Adran o'r llywodraeth	10	5.1
Achydd/hanesydd teulu	4	2.0
Tai	2	1.0
<b>CYFANSWM</b>	<b>196</b>	

### Sioeau teithiol allbynnau Cyfrifiad 2021

Cafodd yr ymgynghoriad ei gefnogi gan bum sioe deithiol ranbarthol a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Mai 2018 yng Nghaerdydd, Newcastle, Manceinion, Birmingham a Llundain. Yn y sioeau teithiol, gwnaethom roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddefnyddwyr am gynllun arfaethedig cychwynnol allbynnau Cyfrifiad 2021, fel yr amlinellwyd yn ein hymgyngoriad. Hefyd, rhoddwyd cyfle i'r sawl oedd yn bresennol roi cynnig ar brototeip o'r system ledaenu hyblyg.

Daeth nifer dda o bobl, dros 200, i'r pum sioe deithiol, o wahanol sectorau. Ar y cyfan, cawsom adborth cadarnhaol ar allbynnau arfaethedig Cyfrifiad 2021, yn ogystal â sylwadau defnyddiol ac adeiladol ar gynllun y system ledaenu hyblyg a rhyngwyneb defnyddwyr. Byddwn yn defnyddio'r adborth hwn, ynghyd â'r dystiolaeth a roddir yn yr ymgynghoriad hwn ac ymchwil arall i ddefnyddwyr, i lywio fersiynau pellach o'r system ledaenu hyblyg.

<sup>4</sup> [http://www.scotlandscensus.gov.uk/documents/census2021/Scotlands\\_Census\\_2021\\_Outputs\\_Strategy\\_Stakeholder\\_event\\_summary.pdf](http://www.scotlandscensus.gov.uk/documents/census2021/Scotlands_Census_2021_Outputs_Strategy_Stakeholder_event_summary.pdf)

# Meini prawf gwerthuso

Bydd cynllun cyffredinol cynnwys allbwn Cyfrifiad 2021 yn cael ei werthuso yn erbyn y meini prawf yn y tabl canlynol. Gwnaeth Ystadegydd Gwladol y DU gytuno ar y meini prawf hyn wrth ddiffinio cwmpas allbynnau Cyfrifiad 2021 a'r prosiect lledaenu ac maent yn seiliedig ar adborth defnyddwyr o Gyfrifiad 2011.

Meini Prawf	Disgrifiad
<b>Hygyrchedd</b>	Mae hyn yn ymwneud â'r gallu i ddod o hyd i ddata Cyfrifiad 2021 a chael gafael arnynt yn hawdd ar gyfer pob gwlad a'r DU gyfan. Mae hyn yn cynnwys cyflenwi llawer iawn o ddata a chael gafael ar dablau a gomisiynwyd, a chynhyrchion diogel. Mae hyn yn cynnwys y gallu i gael gafael ar fetadata a sylwebaeth er mwyn deall a dehongli'r data a gyhoeddwyd.
<b>Hyblygrwydd</b>	Mae hyn yn ymwneud â'r gallu i gael gafael ar ddata sy'n diwallu anghenion defnyddwyr.
<b>Amseroldeb</b>	Mae hyn yn mesur pa mor brydlon y mae allbynnau'r cyfrifiad yn cael eu rhyddhau. Mae hyn yn cynnwys rhyddhau cynhyrchion arbenigol (microdata a chynhyrchion tarddiad-cyrchfan). Dylid llunio allbynnau cyfrifiad cyn gynted â phosibl ar ôl diwrnod y cyfrifiad.
<b>Dichonoldeb</b>	Mae hyn yn ymwneud â dichonoldeb gweithredol datblygu dulliau rheoli datgelu ystadegol ac adnodd hyblyg ar gyfer llunio tablau.
<b>Risg Rheoli Datgelu Ystadegol</b>	Mae hyn yn cynnwys sicrhau y bydd y dull Rheoli Datgelu Ystadegol a ddewisir yn rhoi digon o ansicrwydd yn yr allbynnau a gyhoeddir.
<b>Costau perthynol</b>	Mae hyn yn cynnwys cost datblygu a gweithredu allbynnau a dulliau lledaenu posibl.
<b>Pa mor dderbyniol ydyw i ddefnyddwyr</b>	Mae hyn yn cynnwys profi ymarferoldeb atebion ar gyfer allbynnau yn erbyn gofynion defnyddwyr.
<b>Hyder y cyhoedd</b>	Mae hyn yn cynnwys sicrhau ei bod yn amlwg bod data yn ddiennw a bod y dulliau a ddefnyddir i lunio allbynnau yn dryloyw ac yn cael eu cyfleu'n llwyr i'r defnyddwyr.

Wrth lunio ein hymateb, rydym wedi asesu ymatebion yn erbyn meini prawf hygyrchedd, hyblygrwydd, amseroldeb, derbynioldeb i ddefnyddwyr a hyder y cyhoedd. Nodwyd achosion o wneud sylwadau cadarnhaol neu negyddol am ein

cynllun arfaethedig. Rydym hefyd wedi ystyried unrhyw sylwadau eraill a wnaed gan ddefnyddwyr ynglŷn â'n cynllun nad ydynt yn perthyn yn daclus i'r categorïau uchod.

Gwnaethom hefyd edrych ar y math o waith oedd yn cael ei wneud gan ddefnyddwyr wrth ystyried yr ymatebion. Roedd hyn yn seiliedig ar ddiffiniad Cynllun Ymchwilwyr Cymeradwy SYG o ymchwil a wneir er budd y cyhoedd<sup>5</sup>.

Gallai'r mathau o waith gynnwys defnyddio data'r cyfrifiad er mwyn:

- gwneud penderfyniadau ynghylch polisi cyhoeddus
- cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus
- dyrannu adnoddau cyhoeddus
- gwneud penderfyniadau sy'n debygol o fod o fudd sylweddol i economi'r DU, i gymdeithas neu i ansawdd bywyd pobl yn y DU

Lle rydym wedi defnyddio canrannau yn y dadansoddiad o'n hymateb, rydym wedi defnyddio nifer yr ymatebion i bob cwestiwn unigol i gyfrifo'r canrannau hyn.

---

<sup>5</sup> <https://www.ons.gov.uk/aboutus/whatwedo/statistics/requestingstatistics/approvedresearcherscheme>

# Pynciau a daearyddiaethau

Gwnaethom ofyn i ymatebwyr nodi'r prif bynciau oedd o ddiddordeb iddynt a'r daearyddiaethau y gwnaethant eu defnyddio fwyaf ar ôl Cyfrifiad 2011. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn ein helpu i gynllunio ein hamserlen gyhoeddi. Byddwn yn ei hystyried ochr yn ochr â'r canlynol:

- gwybodaeth a gasglwyd yn ymgynghoriad "Barn Gychwynnol ar gynnwys Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr" 2015
- ystadegau a lawrlwythwyd o Gyfrifiad 2011 o NOMIS a gwefan SYG
- ein cynlluniau ar gyfer prosesu data'r cyfrifiad
- dyheadau i ddefnyddio data gweinyddol

## Pynciau

Roeddem am wybod beth oedd y prif bynciau o ddiddordeb i ddefnyddwyr yn dilyn Cyfrifiad 2011.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>196</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Oedran, ethnigrwydd, rhyw, iechyd, cyfansoddiad y cartref ac incwm oedd y pynciau mwyaf pwysig

## Daearyddiaethau

Roeddem am wybod pa ddaearyddiaethau a ddefnyddiwyd yn dilyn Cyfrifiad 2011.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>190</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Awdurdodau Lleol, Wardiau, ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) oedd y daearyddiaethau a ddefnyddiwyd fwyaf
	Parciau Cenedlaethol, mathau eraill o ddaearyddiaeth, a gridiau GEOSTAT oedd y daearyddiaethau a ddefnyddiwyd leiaf

Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol er mwyn deall y daearyddiaethau a ddefnyddiwyd. Byddwn yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr ag ystadegau a lawrlwythwyd o'r porth Daearyddiaeth Agored a gwybodaeth o achosion eraill o ymgysylltu â'r cyhoedd. Rydym hefyd yn ymwybodol y gall defnyddwyr ddefnyddio ein daearyddiaethau mewn ffordd anuniongyrchol, er enghraifft daearyddiaeth ardaloedd adeiledig yw sail ystadegau trefol-gwledig.

## Ffigur 2: Ymatebion i'r cwestiwn, "Yn 2011, pa ardaloedd daearyddol y gwnaethoch eu defnyddio?"

<b>PWYSICAF</b>	<b>1</b>	Awdurdodau lleol
	<b>2</b>	Wardiau
	<b>3</b>	Ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (LSOA)
	<b>4</b>	Ardaloedd cynnyrch
	<b>5</b>	Siroedd/awdurdodau lleol haen uchaf
	<b>6</b>	Rhanbarthau
	<b>7</b>	Plwyfi
	<b>8</b>	Ardaloedd cynnyrch ehangach haen ganol (MSOA)
	<b>9</b>	Gwledydd
	<b>10</b>	Cod post*
	<b>11</b>	Ardaloedd Teithio i'r Gwaith (TTWA)
	<b>12</b>	Etholaethau seneddol
	<b>13</b>	Parthau Gweithle
	<b>14</b>	Partneriaethau menter lleol
	<b>15</b>	Ardaloedd adeiledig (gan gynnwys is-raniadau)
	<b>16</b>	Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth (NUTS)
	<b>17</b>	Parciau cenedlaethol
	<b>18</b>	Arall
<b>LLEIAF PWYSIG</b>	<b>19</b>	Grid GEOSTAT

\* Codau post Cyfrifiad 2011




## Defnyddio data'r cyfrifiad

Hefyd, roeddem am wybod sut y cafodd data Cyfrifiad 2011 eu defnyddio.

Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn	195
Prif ganfyddiadau	Y defnyddiau mwyaf cyffredin oedd "llunio a monitro polisïau" (75%) a "cynllunio a darparu gwasanaethau" (69%) Y defnyddiau lleiaf cyffredin oedd "dibenion eraill" (13%) a "dibenion masnachol" (9%)

**Ffigur 3: Ymatebion i'r cwestiwn "Yn 2011, at ba ddiben y gwnaethoch ddefnyddio data'r cyfrifiad?"**



# System ledaenu hyblyg

Ar gyfer 2021, rydym yn bwriadu lledaenu data'r cyfrifiad drwy system ledaenu hyblyg. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr i greu eu setiau data eu hunain drwy ddewis y ddaearyddiaeth, y sail boblogaeth a'r newidynnau sydd eu hangen arnynt. Bydd yn golygu bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar y data yn fwy amserol, o gymharu â'r hyn a ddigwyddodd gyda Chyfrifiad 2011. Bydd hefyd yn golygu bod data'r cyfrifiad yn fwy hygyrch, gan fod y rhan fwyaf o'r data ar gael drwy un wefan. Bydd y dull hwn hefyd yn defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol sy'n defnyddio proses cyfnewid cofnodion wedi'i thargedu, lefel ysgafn o aflonyddiad (sef y dull allweddi celloedd) a gwiriadau cynllun tablau awtomataidd. Mae rhagor o wybodaeth am y dull hwn o weithredu yn y ddogfen ymgynghori<sup>6</sup>.

Roeddem am gadarnhau i ba raddau roedd defnyddwyr am gael system ledaenu hyblyg a'r fethodoleg rheoli datgelu ystadegol, a deall effaith hyn ar eu gwaith.

Ymatebodd 195 o bobl i o leiaf un cwestiwn yn yr adran hon.


---

<sup>6</sup> <https://consultations.ons.gov.uk/census/initial-view-on-the-2021-census-output-design/>

Gwnaethom ofyn a fyddai'n well gan ddefnyddwyr gael mynediad at ddata drwy system ledaenu hyblyg ar-lein yn gynharach ar ôl diwrnod y cyfrifiad yn hytrach nag aros i ni lunio tablau.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>195</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Roedd 88% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'n well ganddynt gael mynediad at ddata drwy system ledaenu hyblyg ar-lein yn gynharach ar ôl diwrnod y cyfrifiad, yn hytrach nag aros i ni lunio tablau
	Roedd 3% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf
	Nid oedd 9% yn siŵr


**Ffigur 4: Ymatebion i'r cwestiwn "Byddai'n well gennyf gael mynediad at ddata drwy system ledaenu hyblyg ar-lein yn gynharach ar ôl diwrnod y cyfrifiad yn hytrach nag aros i SYG lunio tablau".**



Roeddem am wybod a oedd y gallu i ddiffinio eu tablau eu hunain yn fwy defnyddiol i ddefnyddwyr na defnyddio tablau rhagddiffiniedig.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>194</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Roedd 75% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y gallu i ddiffinio tablau yn fwy defnyddiol na defnyddio tablau rhagddiffiniedig
	Roedd 7% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf
	Nid oedd 18% yn siŵr


**Ffigur 5: Ymatebion i'r cwestiwn "Mae'r gallu i ddiffinio fy nhablau fy hun yn fwy defnyddiol i mi na defnyddio tablau rhagddiffiniedig".**



Roeddem am nodi p'un a fyddai'n ddefnyddiol i ddefnyddwyr petai nifer fach o dablau amryweb unigol ar gael ochr yn ochr â'r tablau hynny a gynhrychid drwy'r system ledaenu hyblyg.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>193</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Roedd 86% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'n ddefnyddiol petai nifer fach o dablau amryweb unigol ar gael ochr yn ochr â'r tablau hynny y gallent eu creu drwy'r system ledaenu hyblyg
	Roedd 4% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf
	Nid oedd 10% yn siŵr


**Ffigur 6: Ymatebion i'r cwestiwn "Byddai'n ddefnyddiol petai nifer fach o dablau amryweb unigol ar gael ochr yn ochr â'r tablau hynny y gallaf eu creu drwy'r system ledaenu hyblyg".**



Roeddem hefyd am ddeall effaith y fethodoleg rheoli datgelu ystadegol arfaethedig ar ddefnyddwyr a ph'un a fydd yn dderbyniol i ddefnyddio tablau lle mae anghysondebau bach yng nghyfansymiau tablau allbynnau oherwydd yr aflonyddiad a achosir gan y dull allweddi celloedd.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>192</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Roedd 65% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddent yn fodlon defnyddio tablau ag anghysondebau bach yng nghyfansymiau tablau allbynnau oherwydd yr aflonyddiad a achosir gan y dull allweddi celloedd
	Roedd 8% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf
	Nid oedd 27% yn siŵr

**Ffigur 7: Ymatebion i'r cwestiwn "Byddwn i'n fodlon defnyddio tablau lle mae anghysondebau bach yng nghyfansymiau tablau allbynnau oherwydd yr aflonyddiad a achosir gan y dull allweddi celloedd".**



Hefyd cawsom 66 o ymatebion gan ddefnyddwyr a roddodd adborth manylach ar ein system ledaenu hyblyg arfaethedig.

## Rhyddhau data'r cyfrifiad yn amserol

Roedd defnyddwyr o'r farn bod gallu cael gafael ar ddata Cyfrifiad 2021 yn gynharach ac yn fwy amserol o gymharu â data Cyfrifiad 2011, heb fod angen aros i ni lunio tablau, o fudd. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo angen data ar grwpiau penodol o'r boblogaeth arnynt.

**Cyngor Tower Hamlets:** *"Potentially, this could provide valuable data on small population groups (ethnic groups and individual countries of birth) avoiding lengthy waits for commissioned tables - so is a very welcome development."*

**Cyngor Cernyw:** *"...write-in options should be included within the FDS [flexible dissemination system] which will then enhance the ability to determine the cross tabulations needed rather than relying on pre-determined tables. Write-in options should also be made available at the same time as the main release."*

Fodd bynnag, cawsom un sylw yn nodi y byddai'n fwy gwerthfawr i ddefnyddwyr petaem yn ystyried trefn rhyddhau data.

**Cymdeithas Ymchwil y Farchnad, a Grŵp y Cyfrifiad a Geodemograffeg a Grŵp Defnyddwyr Dadansoddwyr Data Cymdeithas Ymchwil y Farchnad:** *"Can the priority of outputs being released be ordered by user demand/usefulness? For example, can outputs related to age and sex be released first? In 2011, age by sex at output area level was one of the last outputs to be released. It really should have been one of the first because it is fundamental to a vast range of users."*

Hefyd, codwyd pryderon am ein gallu i gyflwyno'r system ledaenu hyblyg. Yn ogystal â hynny, gofynnwyd am i unrhyw system fod ar gael cyn rhyddhau data i ddefnyddwyr eu profi a dod yn gyfarwydd â nhw cyn rhyddhau data'r cyfrifiad.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili:** *"I have some concerns regarding the flexible dissemination system - something of this nature was promised in 2011 and nothing happened. I can understand the reasoning behind providing users with the flexibility to design their own tables and the reduced workload for ONS in terms of providing ready-made tables. However, this system would need to be proven to work well in advance of the Census results being made available. I would suggest expert users of Census data are allowed access to the tool for test purposes (such as beta versions) as early as possible, to ensure that it meets their needs."*

**Bwrdeistref Camden, Llundain:** *"We are not convinced that the flexible dissemination system will provide the full range of statistics at the differing levels of geography that we require. Previous census products that were meant to provide such utility have failed to deliver and, therefore, there is a concern that throwing*

*the eggs into this one basket is a huge risk. A standard table-set would ensure that users could rely on a guaranteed set of outputs, even if this takes longer to complete. Starting off from set tables is a good way to carry out a sense check and spot if something is going wrong – you’re also more likely to pay attention to notes relating to the table population and the individual variables.”*

## **Ymarferoldeb y system ledaenu hyblyg**

Roedd ymarferoldeb arfaethedig y system ledaenu hyblyg, gyda defnyddwyr yn gallu diffinio eu setiau data eu hunain, hefyd yn rhywbeth i’w groesawu.

**Cyngor Cernyw:** *“The flexible dissemination system is very much supported, providing a great deal of flexibility alongside timely dissemination.”*

Gwnaeth defnyddwyr groesawu ein cynnig i wneud data’r cyfrifiad yn fwy hygyrch a sicrhau bod y rhan fwyaf o ddata ar gael drwy un pwynt mynediad.

**Cyngor Bwrdeistref Basingstoke a Deane:** *“The proposal to host the majority of census data from one location is welcomed, especially as the publication of the parish data separately on Neighbourhood Statistics caused confusion when the 2011 data was released.”*

Hefyd, dynodwyd bod fformat data a gynhyrchir gan y system ledaenu hyblyg yn bwysig i ddefnyddwyr sicrhau cydnawsedd â’u meddalwedd a’u systemau eu hunain.

**Cyngor sir:** *“Programmes such as R do require a level of standardised reporting and a rigid template of the csv output from the dissemination tool. Therefore, a predictable and consistent excel output (preferably unformatted csv) would be desired. Templates/Layouts of the proposed output before the census data is released (could be filled with dummy variables), such that scripts for R could be created in advance of the census release would also be of value to us.”*

**Cymdeithas Ymchwil y Farchnad, a Grŵp y Cyfrifiad a Geodemograffeg a Grŵp Defnyddwyr Dadansoddwyr Data Cymdeithas Ymchwil y Farchnad:** *“Table output export options must include MS Excel and csv file formats.”*

Hefyd, cafwyd sawl sylw bod y wefan NOMIS bresennol yn cael ei defnyddio’n helaeth i gael gafael ar ddata Cyfrifiad 2011 ac y byddai defnyddwyr yn hoffi gweld y system ledaenu hyblyg yr un mor ymarferol o leiaf â NOMIS.

**Cyngor Canol Swydd Bedford:** *“NOMIS was used extensively for the 2011 Census results and is still used now, so any new system needs to have at least the functionality of NOMIS, both in terms of site design and user support”.*



**Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaid Rotherham:** *“Please build on NOMIS as an effective way to access Census data and also the table building capability of StatXplore for DWP data which could be duplicated for Census data.”*

Hefyd cawsom adborth y dylai cynllun y system ledaenu hyblyg fod yn hygyrch i wahanol fathau o ddefnyddwyr, nid dim ond unigolion a sefydliadau sy'n gyfarwydd â data'r cyfrifiad ac yn eu defnyddio'n rheolaidd.

**Cyngor Cernyw:** *“It should also be recognised that there is a huge variation in user knowledge and so consideration should be given to the inclusion of a search facility based on postcode or place name, such as that on NOMIS. This would support those not familiar with Census Geographies and coding to access the data needed.”*

Hefyd, cawsom adborth gan un ymatebydd a bwysleisiodd bwysigrwydd darparu fersiwn Gymraeg o'r system ledaenu hyblyg.

**Cyngor Gwynedd:** *“Important that any dissemination system is fully bilingual (Welsh/English) with Welsh-language content properly tested/proof-read beforehand.”*

Bydd y system ledaenu hyblyg yn galluogi defnyddwyr i greu eu setiau data eu hunain. Fodd bynnag, codwyd pryder, petai data'r cyfrifiad yn cael eu diwygio ar ôl eu cyhoeddi, y byddai angen i ddefnyddwyr ailredeg eu hymholiadau er mwyn ail-greu eu setiau data. Hefyd, ystyriwyd bod y broses o greu tablau yn un llafurus i'r defnyddiwr.

**Edmund Fallon:** *“My only concern would be that if we get all the data first and do not wait for ONS to create them, as they have done in the past, then we may run the risk of inconsistencies in analyses and ongoing revisions to analyses which have been self-created. There is some comfort in knowing that the ONS have ratified all tables before their release.”*

**Bwrdeistref Camden, Llundain:** *“Defining tables for ourselves will create work at a time when we have fewer people and less time. With a lot of user defined tables I think we might find ourselves comparing apples and pears quite often where different users pick different variables as indicators of the same thing.”*

Codwyd pryder hefyd am berfformiad y system ledaenu hyblyg a'i gallu i ymdopi â nifer fawr o ddefnyddwyr.

**Cymdeithas Ymchwil y Farchnad, a Grŵp y Cyfrifiad a Geodemograffeg a Grŵp Defnyddwyr Dadansoddwyr Data Cymdeithas Ymchwil y Farchnad:** *“This system [needs to] cope with the very heavy demand that will come from a vast array of users all wanting these data at the same time.”*

## Tablau a bennwyd ymlaen llaw

Yn ein dogfen ymgynghori, nodwyd ein bod yn bwriadu llunio rhai tablau a bennwyd ymlaen llaw ochr yn ochr â'r system ledaenu hyblyg. Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr fod cyhoeddi rhai tablau a ddiffiniwyd ymlaen llaw yn ddefnyddiol ac yn bwysig iawn i awdurdodau lleol.

**Cyngor Cernyw:** *"The provision of predefined tables is however also important as some of the key statistics tables are staples for many local authorities and would reduce duplication of efforts. This may also provide an alternative means of accessing data, albeit limited, should high level traffic on the FDS be such in the initial release phase that access is problematic."*

**Cyngor Sir Swydd Hertford:** *"Having a set of univariate tables gives us an immediate overview of the results at local authority level without having to try and guess which variables we would need to choose from a system. These were predetermined for 2011 based on the layouts from 2001, also giving comparability."*

## Cymaroldeb â 2011

Nododd defnyddwyr hefyd ei bod hi'n bwysig gallu cymharu data Cyfrifiad 2021 â data Cyfrifiad 2011.

**Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf:** *"We welcome a flexible approach to data dissemination. However, we would also have a need to compare easily with the 2011 and 2001 Census, and in this respect metadata accuracy is also important."*

**Cyngor sir:** *"It would helpful to have 2011 data available - perhaps a comparator tool so data can be manipulated in the same place rather than having to go back to Nomis and get the data as it is currently."*

## Methodoleg Rheoli Datgelu Ystadegol

Bydd ein methodoleg rheoli datgelu ystadegol arfaethedig yn arwain at rai anghysondebau bach yng nghyfansymiau tablau oherwydd yr aflonyddiad a achosir gan y dull allweddi celloedd. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r adborth ynghylch ein cynnig i ddefnyddio system ledaenu hyblyg a methodoleg rheoli datgelu ystadegol yn gadarnhaol. Byddai defnyddwyr yn fodlon ar anghysondebau bach yn y cyfansymiau, ar yr amod bod canllawiau ar gael i ddefnyddwyr.

**Bwrdeistref Camden, Llundain:** *"I would find it acceptable to use tables where there are small inconsistencies in output table totals due to the perturbation caused by the cell-key method. We have been here before, but it's not an easy sell to the less savvy user."*

**Corfforaeth Dinas Llundain:** *“However, personally I think small inconsistencies are fine. From an end user perspective, my simple approach would be rounding data to at least 10 for small areas and probably at least 100 for larger areas. In simple terms, it would have minimal impact. The key in my opinion is provide guidance on using the data and quoting in analytical reports e.g. using a set of rounding guidelines.”*

**Cyngor Bwrdeistref Stevenage:** *“The flexible dissemination tool will enable a vast number of different tables to be produced. Perturbation will mean two similar tables may provide different figures. It will therefore be essential that any downloaded files are clearly marked with the precise table configuration, and/or some kind of reference or URL that will enable the data to be referenced effectively and downloaded by others.”*

Fodd bynnag, mynegodd rhai defnyddwyr ansicrwydd am ein dull gweithredu cyffredinol ac roeddent yn poeni'n arbennig am effaith cymhwyso'r dull aflonyddu allweddi celloedd a'r effaith ar gyfansymiau tablau.

**Grŵp Defnyddwyr Dadansoddwyr Data:** *“We do not want a more stringent SDC method than the one used for the 2011 Census as this would have a detrimental effect on outputs.”*

**Cyngor Bwrdeistref Basingstoke a Deane:** *“We are against the use of a flexible dissemination system because of the inconsistencies in output table totals caused by perturbation. This will cause confusion and distrust of the data amongst users, particularly decision makers, as well as creating difficulty in every day analysis and for these reasons we do not think it is acceptable. From memory, this was exactly the problem that users had with the 2001 Census data and the very reason that 2011 Census data was developed to use record swapping which allowed consistency across all tables.”*

## Ein hymateb – System ledaenu hyblyg:

Croesawn yr adborth mae defnyddwyr wedi ei roi i ni am ein cynlluniau i ddefnyddio system ledaenu hyblyg i ledaenu allbynnau Cyfrifiad 2021. Rydym yn hapus gyda'r ymateb cadarnhaol a gafwyd gan ddefnyddwyr ar y cyfan, ond gwyddom na fydd y dull hwn o weithredu wrth fodd pawb efallai. Byddwn yn parhau i weithio gyda defnyddwyr er mwyn deall eu hanghenion a datblygu cynllun terfynol allbynnau'r cyfrifiad er mwyn diwallu'r anghenion hyn i'r graddau mwyaf posibl.

Ar hyn o bryd rydym yn datblygu'r fethodoleg rheoli datgelu ystadegol a chael sicrwydd ynghylch ein dulliau gan ystod eang o arbenigwyr. Mae Ystadegydd Gwladol y DU yn helpu i ddatblygu'r broses rheoli datgelu ystadegol.

Un o nodau ein hallbynnau yw galluogi defnyddwyr i gael yr un lefel o fanylder mewn newidynnau, daearyddiaethau a seiliau poblogaeth ag yn 2011. Yn 2011, roedd y fethodoleg rheoli datgelu ystadegol yn golygu, petai un ardal ddaearyddol yn methu gwiriad datgelu, na fyddai data ar gael ar gyfer unrhyw ardal. Mae'r fethodoleg newydd yn cynnig y bydd data ar gael ar gyfer unrhyw ardal sy'n llwyddo gwiriadau datgelu, ni waeth p'un a yw ardal arall yn methu. Bydd hyn yn golygu bod mwy o ddata ar gael i'r cyhoedd.

Bydd y dull allweddi celloedd yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu allbynnau mwy amserol a hyblyg. Bydd hefyd yn diogelu rhag datgelu drwy wahaniaethu mewn achosion lle gallai pob ardal ddaearyddol ond un gael ei rhyddhau o ardal ddaearyddol fwy o faint. Rydym yn parhau i ymchwilio i faint anghysondebau rhwng cyfansymiau tablau a achosir gan aflonyddiad allweddi celloedd, ond disgwyliwn i unrhyw wahaniaethau fod yn fach fwy na thebyg. Caiff y lefel o aflonyddu ei phennu er mwyn sicrhau bod unrhyw anghysondebau mor fach â phosibl wrth ddiogelu rhag datgelu ar yr un pryd. Byddwn yn rhoi canllawiau i ddefnyddwyr er mwyn egluro'r fethodoleg rheoli datgelu ystadegol a sut i ddefnyddio'r data.

Rydym wedi nodi y gall fod rhywfaint o ddata'r cyfrifiad na fyddant ar gael drwy'r system ledaenu hyblyg, ond bydd yr un fethodoleg rheoli datgelu ystadegol yn cael ei chymhwyso o hyd, er enghraifft data ar grwpiau bach o'r boblogaeth sy'n deillio o bynciau sy'n newydd i Gyfrifiad 2021. Rydym yn ystyried sut i ddarparu'r data hyn mewn fformat amgen, er enghraifft mewn tabl a bennwyd ymlaen llaw.

Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaeth ar gyfer llunio allbynnau penodol neu wedi'u comisiynu nad ydynt wedi'u cynnwys mewn cynhyrchion allbwn safonol yn dilyn Cyfrifiad 2021. Byddwn yn cymhwyso'r un fethodoleg rheoli datgelu ystadegol â'r holl allbynnau tabwlaidd safonol eraill.

Rydym wedi gweithio gyda chwmni allanol er mwyn adeiladu prototeip o system ledaenu hyblyg a dangos ei dichonoldeb. Rydym bellach yn chwilio am ateb a

all gael ei gynnwys o fewn system TG SYG a datblygu rhyngwyneb defnyddwyr ar wefan SYG. Mae'r adborth rydym wedi'i gael drwy'r ymgynghoriad a'r sioeau teithiol yn dynodi bod defnyddwyr yn gyfarwydd â natur ymarferol NOMIS a gwefannau Ystadegau Cymdogaethau sydd bellach wedi cau. Rydym am barhau i weithio gyda defnyddwyr er mwyn deall ymhellach y swyddogaethau penodol a'r elfennau dylunio sy'n well ganddynt, ac anelu at gynnwys y rhain yng nghynllun system ledaenu hyblyg. Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau bod y system ledaenu hyblyg yn cynnig yr opsiwn i gael gafael ar ddata yn Gymraeg, lle bo'n gymwys.

Rydym yn anelu at gael fersiwn gwbl weithredol o'r system ledaenu hyblyg ar wefan SYG cyn rhyddhau amcangyfrifon Cyfrifiad 2021. Er mwyn gwneud data Cyfrifiad 2021 yn fwy amserol, hoffem weld defnyddwyr yn dod yn fwy cyfarwydd â'r system ar-lein a bod y rhaglenni perthnasol wedi'u hymgorffori yn eu systemau fel eu bod yn gallu defnyddio Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API) SYG. Byddwn hefyd yn cynnal prawf straen ar y system ledaenu hyblyg cyn ei lansio er mwyn sicrhau y gall wrthsefyll y nifer ddisgwyliedig o ddefnyddwyr.

Cynhelir profion sicrhau ansawdd llawn ar amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 gan ddefnyddio methodoleg gadarn cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar wefan SYG. Ar gyfer allbynnau sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol integredig, byddwn yn sicrhau bod y metadata ategol yn crynhoi'r ffynhonnell, y diffiniadau a'r fethodoleg a ddefnyddir i lunio'r amcangyfrifon. Os bydd angen cywiro data'r cyfrifiad ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, byddwn yn dilyn y polisi diwygiadau<sup>7</sup> a fydd yn amlinellu'r broses o ddiwygio data a hysbysu defnyddwyr am y newid hwn.

Ein bwriad yw manteisio ar y system ledaenu hyblyg y tu hwnt i allbynnau Cyfrifiad 2021. Drwy ei defnyddio, gellir cael gafael ar ddata ehangach SYG, gan gynnwys allbynnau yn seiliedig ar ddata gweinyddol.

---

<sup>7</sup> <https://www.ons.gov.uk/methodology/methodologytopicsandstatisticalconcepts/revisions>


# Lledaenu symiau sylweddol o ddata cyfun

Gwnaethom gydnabod y bydd angen i rai defnyddwyr gael llawer iawn o ddata cyfun (yn enwedig y rhai sy'n ychwanegu gwerth ac yn aiddosbarthu'r data) a gallu cyflwyno ymholiadau gan ddefnyddio systemau y tu allan i SYG.

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a oes angen cyfran uchel iawn o ddata cyfun arnynt i'w gosod yn eu systemau eu hunain, er enghraifft swmp ddata.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>192</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Roedd 29% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod angen cyfran uchel iawn o ddata cyfun arnynt i'w gosod yn eu systemau eu hunain
	Roedd 36% o ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf
	Nid oedd 36% yn siŵr


**Ffigur 8: Ymatebion i'r cwestiwn "Mae angen cyfran uchel iawn o ddata cyfun arnaf i'w gosod yn fy systemau fy hun (er enghraifft swmp ddata)".**



Roeddem hefyd am nodi p'un a fyddai defnyddwyr yn gallu defnyddio Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau er mwyn cael gafael ar ddata'r cyfrifiad.

Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn	172
Prif ganfyddiadau	Nododd 56% o ymatebwyr y byddai eu systemau yn gallu cael mynediad at ddata'r cyfrifiad drwy API
	Dywedodd 44% na fyddai eu systemau yn gallu gwneud hynny

**Ffigur 9: Ymatebion i'r cwestiwn "A fyddai eich systemau yn gallu cael mynediad at ddata'r cyfrifiad drwy API?"**



Gwnaethom ofyn sut y byddai defnyddwyr yn disgwyl defnyddio data a gafwyd drwy Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API). Mae API yn galluogi gwahanol systemau gwe i gyfathrebu â'i gilydd mewn ffordd awtomataidd. Cawsom 94 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Dywedodd defnyddwyr wrthym fod angen symiau mawr o ddata.

**GEOLYTIX:** "... a bulk download of the Key Statistics tables would still save us and I suspect several others a painful processing task."

**Grŵp Defnyddwyr Dadansoddwyr Data:** "A Bulk Data option is key to us. A lot of our users want to be able to download all of relevant tables at output area level in one go. Our users will be using the vast majority of outputs so we would not want to repeatedly have to select each table or variable in turn. We want as rich a set of outputs in terms of depth and breadth as possible."

Nododd defnyddwyr o lywodraeth genedlaethol, awdurdodau lleol, y sector masnachol ac academia fod galw am API er mwyn cael gafael ar ddata'r cyfrifiad, a'u bod eisoes yn gweithredu systemau i ddefnyddio API.

Nododd defnyddwyr y byddent yn defnyddio API i gyflwyno data'r cyfrifiad i'w systemau eu hunain er mwyn gwneud gwaith dadansoddi, neu ei ddefnyddio i gyfuno data'r cyfrifiad â data o ffynonellau eraill mewn amser real.

**Dr David Owen, Prifysgol Warwig:** *"Would use the API to draw data into programs written in R and/or Python to calculate measures based on Census data for large numbers of small areas."*

**Cyngor Gwynedd:** *"We'd like to explore the possibilities for combining internally sourced data (client, service provision etc) with external data (Census and others) to produce information and performance 'dashboards' which are then updated in real time in line with the 'open data' concept."*

## Ymarferoldeb API

Byddai ymarferoldeb API yn galluogi defnyddwyr i gael gafael ar ddata yn fwy amserol, a byddent yn arbed amser ac adnoddau wrth lawrlwytho a chael gafael ar ddata.

**Cyngor Cernyw:** *"An API would be used to feed a dataset that would be used within our Business Intelligence System. This would then be used within interactive dashboards and combined with other related datasets that are then used across the organisation for service planning and resource allocation purposes. We may look to generate specific reports using the data from the API which would allow us to publish Cornwall specific 2021 Census data on our website in a timely manner."*

**Cyngor East Riding, Swydd Efrog:** *"We have a cloud-based hosted website that our supplier obtains data through APIs to populate (freeing up officer time to actually use the data, rather than spending the time to upload it)."*

**Cyngor sir:** *"We use this [API] for downloading key economic data as it saves some time compared to building upload sheets in excel."*

**Stefan Noble:** *"We plan to extract all of the census data tables (including cross tabular data) at Output Area and import into our internal databases to aggregate to the bespoke geographies that we work with. This is a very large job if undertaken manually so being able to make use of an API will speed the extraction and import process."*



## Buddiannau API

Byddai buddiannau defnyddio API hefyd yn ei gwneud hi'n haws i ddadansoddwyr a'u rhanddeiliaid mewnol ac allanol gael gafael ar ddata'r cyfrifiad.

**Cyngor Dinas Salford:** *"We are also exploring the option of increasing openness by allowing residents to interact with local data directly, including census data through data visualisation software such as Tableau. APIs would streamline and improve this activity."*

**Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin:** *"An online API would make it easier to automate and standardise the production of these reports and analyses. It would also allow us to use data in online applications (we have previously used Census data from the Nomis API for mapping ethnicity by Parliamentary constituency, for example)."*

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:** *"To create/embed a 'live' National Park Profile on our website."*

**Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf:** *"We currently access a variety of information via APIs to support our mapping tools on MappingGM. Access to a system that provides Census information in an API will allow us to visualise data at a local level for stakeholders across GM, and allow comparison with previous years Censuses. Additionally, a system like this may also allow more information to be easily mapped through our own internal GIS systems, and those of our partners."*

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd amseroldeb cyflwyno API sy'n addas at y diben.

**Awdurdod Llundain Fwyaf (yn cynnwys mewnbwn gan SASPAC):** *"We worked closely with ONS to deliver the 2011 Census data to our users (which include the GLA and the 33 London Boroughs) and were members of the Output WG and Bulk Outputs WG... Although much time/energy was invested in developing an API for the 2011 data, this failed to deliver anything meaningful to users. The outcome was a very limited set of data, delivered after the event via an API that was of no use to SASPAC, and imagine, anyone else. For the API to be of use, it needs to contain all the data/geography for which outputs are being produced and delivered at the same time as data through any other ONS system. It will also need to be available for testing well-ahead of the first data release, ideally serving up 2011 data, and allow us to develop a system that can consume the API. Crucially, the system needs to be mature enough to handle the 2021 outputs (structure/metadata/code lists/geography lists) well before the data arrives."*

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn dynodi bod parodrwydd i ddefnyddio API a bod angen i ddefnyddwyr wneud hynny. Fodd bynnag, gwnaethant hefyd ddynodi nad oes gan rai defnyddwyr y lefel o arbenigedd sydd ei hangen ar gyfer API ar hyn o bryd, ac nad oes gan eu systemau y lefel o ymarferoldeb sydd ei hangen ychwaith.

**Cyngor Canol Swydd Bedford:** *“It is possible we would use it with Public Health data, but we will need to develop our technical knowledge.”*

**Cyngor Sir Swydd Hertford:** *“Obviously an API is a great way of disseminating but the level of expertise needed to use one is above our level.”*

## **Ein hymateb – Lledaenu symiau sylweddol o ddata cyfun:**

Mae'r ymatebion yn dynodi bod galw clir ymhlith defnyddwyr am API i gael gafael ar ddata'r cyfrifiad. Mae llawer o'n defnyddwyr eisoes yn defnyddio API yn eu gwaith a byddent yn gwerthfawrogi gallu gwneud hyn er mwyn lleihau'r amser a'r arian sydd eu hangen i fewnforio data i'w systemau.

Ein nod yw gweithio'n agos gyda defnyddwyr er mwyn deall eu gofynion o ran cyflenwi symiau mawr o ddata cyfun a datblygu API sy'n diwallu eu hanghenion.

Rydym eisoes wedi dechrau datblygu API<sup>8</sup>, felly byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn er mwyn datblygu API i gael gafael ar ddata Cyfrifiad 2021. Byddai'r ystod o ddata a fyddai ar gael drwy API yr un peth â'r hyn a ddarperir drwy'r system ledaenu hyblyg a rhyngwyneb defnyddwyr ar wefan SYG.

Rydym yn anelu at greu API cyn lledaenu data'r cyfrifiad fel bod modd darparu data'n amserol a rhoi cyfle i ddefnyddwyr ei gynnwys yn eu systemau.

Byddwn hefyd yn darparu canllawiau fel y gall defnyddwyr ddeall yr API, ei ddefnyddio'n llawn a hyrwyddo ei argaeledd.

---

<sup>8</sup> <https://developer.ons.gov.uk/office-for-national-statistics-api/reference>

# Defnyddio data gweinyddol er mwyn gwella ac ategu allbynnau


I gyd-fynd â rhyddhau data'r cyfrifiad, rydym yn bwriadu creu allbynnau lle caiff data'r cyfrifiad eu gwella drwy eu hintegreiddio â ffynonellau data eraill. Rydym wrthi'n ystyried pa ffynonellau data gweinyddol a allai gael eu defnyddio i greu'r allbynnau hyn.

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr ddynodi pa bynciau, nad ydynt yn cael eu cynnwys yn holiadur y cyfrifiad ar hyn o bryd, y byddai ganddynt y diddordeb mwyaf mewn derbyn data yn eu cylch.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>179</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Dywedodd 78% y byddai ganddynt y diddordeb mwyaf mewn derbyn data ar incwm
	Dywedodd 24% y byddai ganddynt y diddordeb mwyaf mewn derbyn data ar y math o eiddo (dadansoddiad mwy manwl na'r hyn sydd ar gael o'r cyfrifiad)
	Byddai gan 10% ddiddordeb mewn derbyn data ar faint eiddo

Er na chynlluniwyd y cwestiwn hwn i fod yn un aml-ymateb, mae'r canlyniadau hyn wedi cael eu cyflwyno er mwyn dangos lle gwnaeth ymatebwyr ddewis opsiynau aml-ymateb. Dim ond y tri opsiwn hyn a gyflwynwyd i ymatebwyr.

**Ffigur 10: Ymatebion i'r cwestiynau "Pa bynciau, nad ydynt yn cael eu cynnwys yn holiadur y cyfrifiad ar hyn o bryd, y byddai gennych chi/y byddai gan eich sefydliad y diddordeb mwyaf mewn derbyn data yn eu cylch?"**



Roeddem am wybod am effaith cael y data ychwanegol hyn ar waith defnyddwyr. Soniodd defnyddwyr am yr angen am ddata ar incwm, math manylach o eiddo, a maint eiddo. Cafwyd 148 o ymatebion i'r cwestiynau ynghylch defnyddio data gweinyddol i lunio allbynnau ategol. Dangosodd defnyddwyr bod angen clir am y wybodaeth hon a thanlinellwyd y manteision i'w gwaith.

## Incwm

Rhoddodd defnyddwyr sawl enghraifft lle byddai amcangyfrifon incwm yn eu helpu i ddadansoddi a darparu gwasanaethau, yn enwedig deall anghydraddoldebau cymdeithasol, amddifadedd, allgau cymdeithasol, patrymau teithio ac iechyd mewn awdurdodau lleol.

**Cyngor Dinas Caerlŷr:** *"Income - Leicester has high levels of deprivation across the city. A large proportion of the population reside in income deprived households. The ability to analyse census categories with income will provide us with a wealth of information about some of our vulnerable communities."*

**Cyngor Sir Gogledd Swydd Efrog:** *"It would improve our ability to target resources to reach low income households, increase our depth of understanding of poverty issues and allow pockets of hidden deprivation within largely affluent areas to be identified."*

**Gwasanaeth Gwybodaeth Busnes Cyngor Sir Swydd Gaerlŷr:** *"This data would help us to understand our communities, alongside other economic data, and to help classify service users based on the income of their place of residence."*

**Cyngor Dosbarth Lewes a Chyngor Bwrdeistref Eastbourne:** *"It would provide a more holistic understanding of circumstances within the district/borough, enabling us to make more robust conclusions and to be more confident in policy direction and for planning service delivery and resource allocation, for example."*

**Cyngor Dinas Salford:** *"For affordable housing strategy, housing strategy and policy development we need calculation of affordability ratio at different geographies across the city, therefore access to some form of income data is essential. Additionally, this information is used to identify specific areas to target for intervention. For example, areas with concentration of low income families need targeted intervention to prevent fuel poverty."*

**Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA):** *"We might be able to get a fuller picture on farm household incomes rather than just incomes from farming."*

**Cyngor Dwyrain Swydd Gaer:** *“The income data would help us to assess geographical variations in our residents’ standards of living and the extent and nature of their reliance on public services. For example, people on lower incomes have less money to spend on transport costs and so may depend more on public transport than other residents do. It would also help us assess geographical variations in housing affordability, which in turn helps to inform planning policy decisions about the provision and location of housing in general and of affordable housing in particular.”*

**Cyngor Swydd Amwythig:** *“The data is required to understand the ability of households to afford different types of housing tenure in Shropshire at a sub-county level i.e. to calculate an affordability ratio (normally lower quartile house price to lower quartile household income).*

*Affordability ratios are considered a key market signal in National Planning Policy Guidance to local authorities developing their Local Plan. They are used to;*

- *Identify affordable housing need at sub-county level and to determine the future housebuilding requirement,*
- *Exam access to housing by type of tenure in order to inform policies influencing the type and tenure of housing required,*
- *Provide evidence to underpin negotiations with developers over the construction or contributions to affordable housing,*
- *Provide evidence to underpin decisions on planning applications,*
- *Provide area profiles of market town etc. to aid web user’s needs.”*

## **Cyfleoedd i ddadansoddi data amlamryweb gan ddefnyddio data ar incwm**

Nododd sawl defnyddiwr y gallai data ar incwm fod yn werthfawr o’u defnyddio gyda newidynnau eraill y cyfrifiad.

**Swyddfa Gartref:** *“Information on income would inform what is known about the socio-economic characteristics of migrants, and permit more detailed impact assessments for relevant policies.”*

**Cyngor Tower Hamlets:** *“Ability to map income levels for different population groups would be invaluable. While we have access to various data about income from non-census sources, there are significant gaps, particularly at local authority level. For example, to enable us to map income levels by ethnic group or disability.”*

**Cyngor Sir Dwyrain Sussex:** *“It would be useful to get a better understanding of income by households for all ages. As a county with a relatively high proportion of households of pensionable age we would find it helpful to understand income distribution of the retired as well as the working age populations. This would inform service planning in Adult Social Care.”*

**Irish in Britain:** *“Housing and Income issues are of interest to us in the context of the equalities direction of our work so that any development/extension of data in both of these areas would be of relevance. The issue of Ethnicity is a key factor for us and it would be important for us that any new data in these areas could be cross tabulated with Ethnicity.”*

**Humanists UK:** *“Humanists UK is primarily interested in the religion question. Combining the administrative data on income would allow us to cross-tabulate religion and belief with a wider range of socio-economic factors for academic purpose, planning and resource allocation and for campaign planning.”*

**Arsyllfa Mudo Prifysgol Rhydychen:** *“Good income data (particularly on unearned income and self-employment earnings at individual and household information) are not currently available in the datasets that include migration-related variables, so having this information from Census would be valuable. We would use it for policy-focused research to understand the integration of different migrant groups in the UK, as well as to understand the economic impacts of migration.”*

Hefyd, nododd defnyddwyr fod ganddynt ddiddordeb arbennig mewn data ar incwm er mwyn helpu i ddeall canlyniadau iechyd.

**Corff cyhoeddus (iechyd):** *“Could connect to health data to see if there is any correlation between income and long-term conditions e.g. diabetes.”*

**Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru:** *“We would use information on income, size of property and type of property. This would give us the ability to analyse the impact of these topics on health which would be used by public health professionals aiming to improve population health.”*

**Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:** *“Income data linked to Census data would provide a means of comparing income between different groups as well as allowing associations between income and other topics to be explored, for example with health.”*

**Awdurdod lleol:** *“Income indicators could help our intelligence team identify areas in Wirral where there are high levels of income inequality, this in turn will inform Public Health commissioners of where there are greater areas of need in Wirral.”*

## **Lleihau’r angen am ddata dirprwyol a gwella cywirdeb**

Nododd sawl defnyddiwr eu bod yn defnyddio ffynonellau data eraill ar hyn o bryd yn lle data ar incwm yn eu gwaith, felly y byddent yn croesawu mesur mwy cadarn o incwm. Fodd bynnag, dywedodd defnyddwyr fod i’r ffynonellau data dirprwyol hyn wahanol gyfyngiadau oherwydd cywirdeb a lefel ddaearyddol.

**Cyngor Bwrdeistref Metropolitaidd Rotherham:** *“Useful to target low income areas rather than use proxy measures which are less accurate.”*

**Cyngor Dosbarth Braintree:** *“It would be useful information for most of the Council services and policy development. It would be useful to consider in the context of housing affordability, for example, which is critically important and largely determines the housing target for plans, but at the moment we only have data that uses ASHE sample survey data and that is volatile at LA district level, bearing in mind it is lower quartile earnings (i.e. a subset) that is looked at. It would be useful to have a comparator from the Census as a check, and this could give us workplace based as well as residence based comparisons.”*

Yn 2011, nid oedd ystadegau ar gael ar gyfer 11% o'r holl blwyfi sifil yn Lloegr, am nad oedd yr ardal a gwmpaswyd yn cynnwys craidd wedi'i bwysoli yn ôl poblogaeth Ardal Cynnyrch. Roeddem am ddeall pwysigrwydd amcangyfrifon o blwyfi ar gyfer defnyddwyr.

Roeddem am wybod a oedd angen i ddefnyddwyr gael amcangyfrifon poblogaeth ar lefel plwyfi sifil.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>190</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Nododd 50% fod angen iddynt gael data ar lefel plwyfi
	Nododd 50% nad oedd angen hynny arnynt

**Ffigur 15: Ymatebion i'r cwestiwn "Mae angen i mi gael data ar lefel plwyfi."**



Roeddem am gael gwybod beth oedd gofynion defnyddwyr o ran ystadegau ar lefel plwyfi. Mae'n amlwg bod a wnelo unrhyw fethodoleg ar gyfer cyhoeddi'r ystadegau hyn â chynnig cydbwysedd rhwng sicrhau bod data ar gael ar gyfer pob plwyf a nifer y newidynnau y gellir eu rhyddhau.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>109</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Y dewis opsiwn oedd i ddefnyddwyr gael amcangyfrifon ar gyfer pob plwyf, ond bydd mwy o newidynnau ar gael ar gyfer rhai plwyfi nag eraill

**Ffigur 16: Ymatebion i'r cwestiwn "er mwyn deall yr hyn sydd ei angen arnoch [ar gyfer ystadegau ar lefel plwyfi], hoffem wybod beth sydd bwysicaf i chi fel defnyddiwr."**

	<b>Rank</b>
Bod amcangyfrifon ar gael ar gyfer pob plwyf, ond bydd mwy o newidynnau ar gael ar gyfer rhai plwyfi	<b>1</b>
Bod data ar gael ar gyfer pob plwyf ystadegol hyd yn oed os yw hynny'n golygu mai dim ond ambell newidyn sydd ar gael	<b>2</b>
Bod nifer o newidynnau ar gael ar gyfer plwyfi hyd yn oed os yw hynny'n golygu na fydd ystadegau yn cael eu llunio ar gyfer rhai plwyfi	<b>3</b>

Gofynnwyd i ddefnyddwyr am unrhyw sylwadau eraill oedd ganddynt am ystadegau ar lefel plwyfi.

Nododd defnyddwyr fod ystadegau ar lefel plwyfi wedi dod yn bwysicach ers Cyfrifiad 2011. Yn ddiweddar mae cynghorau tref a phlwyf wedi ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am greu Cynlluniau Cymdogaethau, sy'n gofyn am ddata ar lefel plwyfi.

**Cyngor Cernyw:** *"Census is the only consistent data set for Parishes and Town Councils and paints an important picture of the changing characteristics in these areas. Requirements for Parish data has increased since 2011. The introduction of neighbourhood planning through the Localism Act which came into force in April 2012 means many parish or town councils have chosen to take the lead on neighbourhood plans. These Plans can also direct service provision, for example utilities and recreational facilities which, in rural areas, may only serve a few households. The ability to profile populations at Parish/ Town Council level is therefore pivotal to this on-going role."*

**Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer:** *“I wish to emphasise the importance of Output Area and Parish level data for Neighbourhood Planning and also for analysis of very small geographical areas when looking at how to improve outcomes for local residents for examples in areas with pockets of deprivation.”*

**Cyngor Swydd Amwythig:** *“The recent Neighbourhood Plan legislation implemented by DCLG means many town and parish councils are considering producing Neighbourhood Plans which entail the development of a needs assessment and have statutory significance in the planning process.”*

Hefyd cawsom ddau sylw yn nodi unwaith eto y dylai fod ar gael i bob plwyf.

**Awdurdod lleol:** *“...the key point is that there should never be a parish or ward for which no data is published. The best outcome would be, for every parish, to publish all the data that is available for that parish. This might mean that some parishes had more data available than others, but as long as the reason why was clearly explained, that would be acceptable.”*

**Cyngor Swydd Amwythig:** *“The release of as much parish level data as possible would be very welcome as in a rural county like Shropshire... [We would like] an explanation of why data was not available [for parishes] and which parish it was merged with. For the 2011 Census, a word document was created for internal reference purposes... It would be useful if ONS could consult local authorities on how best to group the parishes, so that they are consistent with current town and parish groupings where possible.”*

Rydym hefyd yn ymwybodol bod data ar lefel codau post wedi cael eu cynhyrchu yn dilyn Cyfrifiad 2011 fel ffit gorau â daearyddiaethau eraill fel plwyfi eglwysig.

**Eglwys Lloegr:** *“We use postcode-level headcount data and postcode centroid locations to calculate statistics for ecclesiastical parishes. We map postcodes via their centroids onto ecclesiastical parish boundaries and aggregate populations to ecclesiastical parish level. We find that this works well, and has been well accepted by our users.”*

## **Ein hymateb – Plwyfi:**

Cydnabyddwn fod ystadegau ar lefel plwyfi wedi dod yn fwy pwysig ers y cyfrifiad diwethaf, yn enwedig oherwydd y gofyniad i ddata lywio Cynlluniau Cymdogaethau. Dynododd defnyddwyr mai hon oedd y seithfed ddaearyddiaeth fwyaf poblogaidd oedd yn cael ei defnyddio (gweler Ffigur 2). Byddwn yn parhau i gyhoeddi ystadegau ar y boblogaeth ar lefel plwyfi yn dilyn Cyfrifiad 2021.

Rydym wedi dechrau gweithio gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, sy'n gyfrifol am gadw rhestr o blwyfi, er mwyn archwilio'r posibilrwydd o greu daearyddiaeth ystadegol newydd sy'n cynnwys grwpiau



plwyfi. Byddai hyn yn deillio o ddaearyddiaeth weinyddol plwyfi sifil. Byddai'n cael ei chreu fel daearyddiaeth weinyddol, yn hytrach nag yn benodol at ddibenion y cyfrifiad. Yna gallwn ystyried p'un a allwn ryddhau amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer pob cyngor plwyf sydd wedi'i grwpio gyda'i gilydd gan ddefnyddio'r ffit gorau o Ardaloedd Cynnyrch. Os nad yw hyn yn bosibl, bwriadwn barhau i ystyried methodolegau amgen. Byddwn yn parhau i gynnwys defnyddwyr er mwyn deall pa mor dderbyniol yw grwpio cynghorau plwyf.


## Gridiau

Fel rhan o allbynnau Cyfrifiad 2011, gwnaethom ryddhau ystadegau ar grid un cilomedr er mwyn cefnogi gwaith dadansoddi ar lefel Ewropeaidd. Roeddem am ddeall gofynion defnyddwyr am ystadegau wedi'u cynhyrchu ar grid a sut y gellid eu defnyddio i gefnogi gwaith dadansoddi gofodol.

Roeddem am wybod sawl ymatebydd i'r ymgynghoriad oedd wedi defnyddio data sgwâr grid Cyfrifiad 2011.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>187</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Dywedodd 95% na wnaethant ddefnyddio data sgwâr grid o Gyfrifiad 2011
	Dywedodd 5% eu bod wedi eu defnyddio


**Ffigur 17: Ymatebion i'r cwestiwn "A wnaethoch ddefnyddio data sgwâr grid yn 2011 ar gyfer eich gwaith?"**



Roeddem hefyd am wybod pa amcangyfrifon a gynhyrchwyd ar gridiau yn dilyn Cyfrifiad 2021 a fyddai'n ddefnyddiol i ddefnyddwyr.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>164</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Nododd 59% o ymatebwyr na fyddai cael data'r cyfrifiad ar gridiau o ddefnydd iddynt
	Nododd 41% o ymatebwyr y byddai cael data'r cyfrifiad ar gridiau o ddefnydd iddynt


**Ffigur 18: Ymatebion i'r cwestiwn "A fyddai cael data'r cyfrifiad ar gridiau o ddefnydd i chi?"**



Gwnaethom hefyd ofyn i ddefnyddwyr nodi'r grid y byddai'n well ganddynt i ddata gael eu rhyddhau arno ar gyfer 2021.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>94</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Nododd 65% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn y byddai'n well ganddynt dderbyn data yn seiliedig ar y Grid Cenedlaethol Prydeinig
	Nododd 4% y byddai'n well ganddynt weld data yn cael eu rhyddhau ar y grid Ewropeaidd
	Nododd 31% nad oedd ots ganddynt ar ba grid roedd y data yn seiliedig

**Ffigur 19: Ymatebion i'r cwestiwn "Os byddwch yn defnyddio data grid yn 2021, nodwch eich dewis grid ar gyfer rhyddhau'r data."**



Hefyd gofynnwyd i ddefnyddwyr nodi effaith data'r cyfrifiad ar gridiau ar eu gwaith. Cawsom 55 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a 35 o ymatebion i'r cwestiynau "unrhyw sylwadau eraill", a oedd yn cynnwys sylwadau am gridiau.

## **Buddiannau ystadegau seiliedig ar grid**

Darparodd defnyddwyr sawl enghraifft lle bu neu lle byddai ystadegau seiliedig ar grid yn fuddiol i'w gwaith.

Nododd defnyddwyr o lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol ac academia fuddiannau defnyddio gridiau yn cynnwys data ar y boblogaeth ochr yn ochr â data amgylcheddol yn eu gwaith.

**Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA):** *“We could overlay this on our own agricultural data at 1km grid level to integrate statistics cross domains.”*

**Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru:** *“We would investigate how we could use grid data to produce spatial modelling of public health related environmental indicators, such as air quality.”*

**Cyngor Sir Swydd Stafford:** *“We believe they will be useful for monitoring long term change and the same cell sizes allow for easy comparison. It would also allow for analysis of scientific and environment data that are not dependent on administrative boundaries, which we would be useful for teams here such as Flood Risk and Rural County.”*

**Cyngor Dinas Bryste:** *“We are likely to use the grid square data to map demographic and household data against other sources of data not mapped by OA e.g. air quality statistics, transport statistics. Statistics could be presented for example as number of cases per 1,000 households or per 1,000 people. This will help with our understanding of these areas of work and allow comparison of areas of the same geographical size.”*

**Dr David Owen, Prifysgol Warwick:** *“It would enable census data to be linked with environmental and satellite data.”*

Nododd defnyddwyr sut y gall amcangyfrifon a gynhyrchir ar gridiau negyddu effeithiau ffiniau daearyddol gweinyddol afreolaidd a sut maent yn newid dros amser.

**Gwasanaeth Gwybodaeth Busnes Cyngor Sir Swydd Gaerlŷr:** *“It would allow us to produce heat maps to help understand our communities without the distorting effect of geography. Currently we have created our own bespoke cartograms to help circumvent this issue.”*

**Cyngor Bwrdeistref Blackburn gyda Darwen:** *“Grid data provides a useful geography to present data spatially / on maps – overcoming issues around size differences for other geographies such as output areas.”*

**Cyngor Gwynedd:** *“Potentially (if km grid kept constant over future years), would help in comparing trends in areas over long term periods, since this would overcome problems with administrative and OA boundary changes.”*

**Awdurdod Llundain Fwyaf (hefyd yn cynnwys mewnbwn gan SASPAC):** *“Gridded outputs could potentially provide a consistent geography over time.”*

Hefyd nododd defnyddwyr sut y gall gridiau helpu i gymharu gwahanol ardaloedd yn y DU ac Ewrop.

**Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf:** *“The grid data could be useful for economic benchmarking of major European cities particularly comparing pre-and post-BREXIT.”*

**Cymdeithas Ymchwil y Farchnad, a Grŵp y Cyfrifiad a Geodemograffeg a Grŵp Defnyddwyr Dadansoddwyr Data Cymdeithas Ymchwil y Farchnad:** *"It has the potential to provide pan-European standardised and consistent small area geography which is independent of each country's administrative geography allowing spatial analysis in an international and cross border context."*

**GEOLYTIX:** *"It would be super useful. We create multi-country census data packs and frequently use the Eurostat grids."*

Yn 2011, gwnaethom ond llunio amcangyfrifon ar gridiau oedd yn cyfateb i'r ffit orau gan ddefnyddio data yn ôl cyfanswm y boblogaeth, cartrefi a feddiennir a rhyw. Hefyd cawsom un sylw am y newidynnau y byddai'n ddefnyddiol eu cael ar gridiau.

**GEOLYTIX:** *"At the moment you only publish super high-level data... It would be great if you could publish the full Census KS variables at grid. I'm sure you could come up with something to avoid disclosure either directly or by differencing. The Baltic states already do this."*

## **Buddiannau ystadegau seiliedig ar grid heb eu gwireddu'n llawn**

Er gwaethaf yr adborth cadarnhaol am yr angen am gridiau, cawsom hefyd sawl sylw gan ddefnyddwyr nad oeddent yn ymwybodol o sut y byddent yn defnyddio ystadegau seiliedig ar grid yn eu gwaith, na buddiannau'r ystadegau hyn.

**Ymatebydd unigol:** *"I didn't use the grid square data as I didn't know that it was available. May use it next time round if I know where it is and that it will be compatible with our mapping package."*

**Sefydliad Joseph Rowntree:** *"As this geographical breakdown is new to us, it would be really helpful to produce really clear user guides - with not only instructions and explanations but also some examples of how we could use these breakdowns in our work."*

**Cyngor Dinas Southampton:** *"Since we tend to use OA and LSOA data to conform to our boundaries we are unlikely to use grid data."*

**Cyngor Bwrdeistref Bournemouth:** *"This could potentially be useful when we map results but generally we are interested in neighbourhoods or geographies such as wards particularly when they match to natural boundaries."*

## Maint sgwâr grid

Hefyd cawsom sawl sylw gan ddefnyddwyr ynghylch maint sgwariau grid, gan nodi y byddai angen grid bach ar gyfer poblogaeth mwy niferus, yn aml ardaloedd trefol.

**Cyngor Dinas Bryste:** *“1km grid squares will enrich data in some areas where OAs are large but mean less detail for many areas. One advantage of grid squares for us will be the inclusion of blank cells with no data...At national level a 1km grid is likely to be more useful than at a local level where they might prove to be large.”*

**Cyngor Bwrdeistref Blackburn gyda Darwen:** *“Would be useful to make the grid smaller than 1km. e.g. Statistics Norway use a 250m grid across the whole country, and smaller for build-up areas.”*

**Bwrdeistref Hackney, Llundain:** *“1km is too large for London geographies. Please consider reducing in size for urban areas.”*

**Cyngor Bwrdeistref Basingstoke a Deane:** *“The usefulness would depend on the size of the grid...Grids produced at a larger scale, for example 100m could be useful for showing areas that are very low density in terms of overall population or particular characteristics.”*

## Ein hymateb – Gridiau:

Gwerthfawrogwn y diddordeb y mae defnyddwyr wedi ei ddangos mewn cael ystadegau seiliedig ar grid. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad yw rhai defnyddwyr yn ymwybodol o fuddiannau'r ystadegau hyn. Rydym yn bwriadu llunio amcangyfrifon ar sgwariau grid un cilomedr fel y gwnaethom yn 2011. Fodd bynnag, rydym hefyd am ddangos i ddefnyddwyr sut y gallai amcangyfrifon a lunnir ar y ddaeryddiaeth hon gefnogi gwaith ymchwil a dadansoddi.

Cydnabyddwn fod galw cryf am gridiau sy'n defnyddio rhagamcan y Grid Cenedlaethol Prydeinig. Rydym yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig (Cofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon) er mwyn ystyried y materion sy'n codi o ran y gwahanol systemau grid a ddefnyddir ledled y DU a sicrhau cysondeb ledled y DU lle bo modd.

Hefyd rydym am weithio gyda defnyddwyr i ymchwilio ymhellach i'r newidynnau a fyddai'n fwyaf defnyddiol ar sgwariau grid.

Mae'r adborth a gafwyd wedi tanlinellu buddiannau a chyfyngiadau grid sydd ag ond un maint o sgwâr grid. Byddwn yn edrych i weld p'un a allwn ddarparu sgwariau grid amnyth ar gyfer ardaloedd sy'n bodloni trothwyon poblogaeth penodol, ac yn ystyried y data a allai gael eu rhyddhau ar y gridiau hyn o wahanol faint.

Bydd adran Daearyddiaeth SYG yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn 2019 er mwyn ymchwilio ymhellach i anghenion defnyddwyr o ran cynhyrchion daearyddiaeth a gwasanaethau yn dilyn Cyfrifiad 2021.


# Dehongli amcangyfrifon Cyfrifiad 2021: gwybodaeth ategol

Yn 2011, gwnaethom ddarparu amrywiaeth o ddogfennau am y wybodaeth sydd yn y tablau data, a gwybodaeth ategol am ansawdd yr allbynnau a'r diffiniadau a ddefnyddiwyd. Rhoddodd y wybodaeth hon gyd-destun ar gyfer y data, er enghraifft, sut y cawsant eu casglu a chwmpas y data, a'u dyddiad cyhoeddi, disgrifiadau a geiriau chwilio allweddol. Roeddem am sicrhau bod y wybodaeth a ddarparwyd gennym yn ddefnyddiol ac yn hawdd i ddefnyddwyr ei deall.

Roeddem am wybod pa wybodaeth ategol a ddefnyddiwyd yn dilyn Cyfrifiad 2011.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>176</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Roedd 86% o ymatebwyr wedi defnyddio Canllaw i Ddefnyddwyr Cyfrifiad 2011
	Roedd 74% o ymatebwyr wedi defnyddio disgrifiadau o newidynnau a dosbarthiadau
	Roedd 66% wedi defnyddio'r eirfa, a'r dogfennau ansawdd a dulliau


**Ffigur 20: Ymatebion i'r cwestiwn "Pa wybodaeth ategol a ddefnyddiwyd gennych yn 2011?"**



Roedd gennym ddi-ddordeb mewn gwybod ble y byddai defnyddwyr yn disgwyl cael mynediad at wybodaeth ategol.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>186</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Byddai 83% yn disgwyl cael mynediad at wybodaeth ategol mewn dolen wrth ymyl y tabl data
	Byddai 41% yn disgwyl gweld gwybodaeth ategol yn y tablau data
	Byddai 23% yn disgwyl cael mynediad at wybodaeth ategol drwy ran arall o wefan SYG

**Ffigur 21: Ymatebion i'r cwestiwn "Ble y byddech yn disgwyl cael mynediad at wybodaeth ategol?"**



Gwnaethom hefyd wahodd defnyddwyr i ddarparu unrhyw sylwadau eraill oedd ganddynt am ddarparu gwybodaeth ategol ochr yn ochr â'r data.

## Defnyddioldeb gwybodaeth ategol

Dywedodd defnyddwyr wrthym fod y wybodaeth ategol a ddarparwyd yn 2011 yn ddefnyddiol.

**Cyngor Sir Hampshire:** *"This is key. We used this enormously following 2011 and still refer to bits at times, along with the questionnaire itself."*



**Cyngor Dinas Southampton:** *“Supporting information is a key component of the census outputs. We often refer to the supporting information and use it to support other users of the census data.”*

**Awdurdod lleol:** *“This is vital to ensuring the correct interpretation of the datasets.”*

Fodd bynnag, er i ddefnyddwyr ddweud wrthym fod gwybodaeth ategol yn bwysig, dim ond ambell gyfeiriad oedd at y ffordd y defnyddiwyd y metadata.

**Cyngor Bwrdeistref Blackburn gyda Darwen:** *“Links are easier to forward to people who have requested definitions or clarification on variable composition etc.”*

**Y Ganolfan er Gwybodaeth am Astudiaethau Hydredol a Chymorth i Ddefnyddwyr (CeLSIUS) (UCL):** *“Would also expect to use supporting material at other websites including academic support groups.”*

## Lleoliad metadata

Roeddem am wybod ble roedd defnyddwyr yn disgwyl cael mynediad at wybodaeth ategol, er enghraifft yn y tablau data, mewn dolen wrth ymyl y tabl, neu drwy ran arall o wefan SYG. Cafwyd sawl sylw gan ddefnyddwyr ynghylch ble y byddent yn disgwyl dod o hyd i'r wybodaeth ategol ochr yn ochr â data Cyfrifiad 2021, er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch iddynt. Fodd bynnag, ni wnaeth yr ymatebion roi syniad clir a chadarn o ble y byddai defnyddwyr yn disgwyl dod o hyd i'r wybodaeth.

Cafwyd rhai sylwadau y byddai defnyddwyr yn hoffi gweld metadata yn cael eu cynnwys yn y tabl data i'w lawrlwytho.

**Corfforaeth Dinas Llundain:** *“As long as the information is available. My one comment is that internet pages change so best if it is integrated within the data tables upon data extraction.”*

**Eglwys Lloegr:** *“The guidance notes are generally very useful. Including the notes in the data tables will be useful when sharing data and outputs with others.”*

**Bwrdeistref Camden, Llundain:** *“The metadata is REALLY IMPORTANT so that people know what they are getting. It is useful to have the relevant metadata attached to each table, esp. variables and table populations, but also having links to the glossary so that complete understanding of the data may be appreciated.”*

**Cyngor Dinas Salford:** *“We would expect to see supporting information (such as definitions/ methodology) being included in the first tab in a downloaded file (to ensure it stays attached to the associated data when downloaded). We would not want to trawl the website for definitions and associated information that could have been provided with the actual data table, as this could result in a poor use of time resources.”*

Fodd bynnag, cawsom adborth hefyd na fyddai defnyddwyr am gael metadata yn y tablau data.

**Awdurdod Lleol:** *“Tables will often need to be cut and pasted, so links and supporting information should not be within the tables themselves, but close at hand.”*

**Cyngor Bwrdeistref Metropolitaidd Dudley:** *“It would be ideal to have the supporting information available as separate documents (as in 2011) as well as links to the relative supporting information as a link next to data tables.”*

**Cwmni Buddiannau Cymunedol Rural England:** *“Could be summary info in the tables with more detailed info via a link.”*

Byddai rhai ymatebwyr yn disgwyl gweld metadata yn y tabl data a thrwy ran arall o wefan SYG.

**Awdurdod Llundain Fwyaf (hefyd yn cynnwys mewnbwn gan SASPAC):** *“Basic metadata - population, variables used, footnotes should always be attached to the data table. But more detailed information e.g. glossary, data definitions can be separate. These could be accessed by links next to the table, or completely separate.”*

**Cyngor sir:** *“I would expect glossary and descriptions to be alongside the data they are referring to in the online tables. The User Guide and Quality & Methods information would be separate so not to distract users not interested in this information (though the User Guide would be prominent when data is initially released).”*

Gwnaed rhai sylwadau am leoliad metadata ar wefan SYG, gan awgrymu bod angen ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i'r metadata.

**Cyngor Dosbarth Lewys a Chyngor Bwrdeistref Eastbourne:** *“Having the links next to the data tables provides a useful and easily accessible reference point. If the supporting information was placed in another part of the website, it would be cumbersome to have to search for definitions for example, when what is required is a quick and easy way to ensure my understanding of the variables is accurate.”*

**Cyngor Canol Swydd Bedford:** *“Accessing supporting information via another part of the ONS website is not a suitable solution – the ONS website is so big it can be hard to find relevant information. Supporting information needs to be easily accessible from the same location as the table itself.”*

Fodd bynnag, cawsom sylwadau gan ddefnyddwyr nad oeddent am weld metadata mewn unrhyw ffeiliau i'w lawrlwytho. Y rheswm dros hyn oedd na fyddai'n gydnaws â swyddogaethau eraill, fel defnyddio API neu gyfuno â ffeiliau daearyddol.

**Awdurdod lleol:** *“The tables I accessed and attempted to join our GIS data to were a struggle to work with due to many tables having to be manually edited first before joining them. All description text should sit outside of the downloadable data tables making them easier to work with...blank cells are never great.”*

**Ymatebydd unigol:** *“It is nice having sources and dates embedded in data csv files but makes it difficult to reliably machine read or import the data.”*

**Cyngor East Riding, Swydd Efrog:** *“Please can it be ensured that the metadata is good in APIs (as cannot influence it when used in outputs/websites).”*

## **Mathau o fetadata**

Hefyd nododd defnyddwyr y mathau o fetadata y byddent yn disgwyl eu gweld gyda’r data.

**Cyngor Bwrdeistref Basingstoke a Deane:** *“Look up tables giving the names/codes of consistent tables over previous census years would be useful.”*

**Cyngor Dinas Birmingham:** *“Links to 2011 census tables should also be available for comparison.”*

**Llywodraeth Cymru:** *“A Welsh glossary as well as an English glossary would be useful to accompany Welsh outputs so that Welsh users are using consistent terminology.”*

**Awdurdod Llundain Fwyaf (hefyd yn cynnwys mewnbwn gan SASPAC):** *“My top requirement is for detailed descriptions of exactly how variables have been constructed and how they differ from previous censuses; analysis of this would be useful.”*

Hefyd mynegodd defnyddwyr ofyniad i fetadata fod ar gael mewn iaith glir.

**Malcolm Brown:** *“The needs of different categories of users should be assessed. Some will merely want simple short explanations, others very detailed technical descriptions.”*

**Cyngor Bwrdeistref Darlington:** *“Accessible language for infrequent users of ONS data outputs.”*

## Ein hymateb – Gwybodaeth ategol:

Gwnaeth yr ymatebion ddangos yn glir bwysigrwydd darparu metadata y gall pob defnyddiwr gael gafael arnynt yn hawdd. Fodd bynnag, gwnaethant hefyd ddangos nad oes cytundeb o ran y ffordd y dylem roi gwybodaeth ategol i ddefnyddwyr.

Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth ategol yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr ag allbynnau, a'i bod yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol. Bwriadwn ymchwilio ymhellach i ddefnyddwyr ac ystyried anghenion gwahanol fathau o ddefnyddwyr er mwyn ein helpu i gynllunio a dylunio metadata. Byddwn yn ystyried y gwahanol ffyrdd o ddarparu metadata o ran lleoliad, ansawdd a manylder, gan gynnwys sut y byddwn yn darparu metadata drwy'r system ledaenu hyblyg.

Anelwn at gydnabod anghenion gwahanol ddefnyddwyr drwy asesu ymhellach effaith darparu metadata ochr yn ochr â thablau data, wrth ystyried pa mor hawdd yw eu darllen ar beiriant lle defnyddir meddalwedd API a System Gwybodaeth Ddaearyddol ar yr un pryd.

Byddwn yn ystyried y posibilrwydd o ddarparu gwybodaeth sy'n disgrifio cymaroldeb tablau Cyfrifiad 2011 â data Cyfrifiad 2021 a ledled y DU. Byddwn yn defnyddio iaith glir yn ein metadata ac yn dilyn canllaw arddull SYG. Byddwn hefyd yn ymrwymo i ddarparu metadata yn Gymraeg, lle bo angen gwneud hynny.


# Dehongli amcangyfrifon Cyfrifiad 2021: ffyrdd ehangach o ddefnyddio data'r cyfrifiad at ddibenion dadansoddi

Rydym wrthi'n gweithio i ddatblygu ein rhaglen ddadansoddol, a fydd yn cefnogi'r broses o ryddhau data Cyfrifiad 2021. Roedd gennym ddi-ddordeb mewn nodi angen defnyddwyr am waith dadansoddi a sylwadau i gyd-fynd â rhyddhau data.

Roeddem am nodi p'un a gafodd y dadansoddiad a'r sylwadau a luniwyd ochr yn ochr â data Cyfrifiad 2011 eu defnyddio.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>190</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Roedd 63% o ymatebwyr wedi darllen y dadansoddiad a'r sylwebaeth a gyhoeddwyd ochr yn ochr â data Cyfrifiad 2011
	Nododd 37% nad oeddent wedi darllen y wybodaeth hon
	Nododd 21% nad oedd angen iddynt wneud hynny
	Nid oedd 16% yn gwybod eu bod ar gael

**Ffigur 22: Ymatebion i'r cwestiwn "Yn 2011, a wnaethoch ddarllen y dadansoddiad a'r sylwadau ategol?"**



Roeddem hefyd am wybod ym mha fformat y byddai'r deunydd ategol fwyaf defnyddiol i ymatebwyr.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>173</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr o'r farn bod sylwadau ategol fwyaf defnyddiol ar ffurf bwletinau ystadegol a ddisgrifiai allbynnau allweddol, gyda delweddau yn dilyn hynny

### **Ffigur 23: Ymatebion i'r cwestiwn "Sut mae'n well gennych dderbyn sylwadau ategol?"**

	<b>TREFN</b>
Bwletin ystadegol sy'n disgrifio allbynnau allweddol	<b>1</b>
Delweddau	<b>2</b>
Arall	<b>3</b>
Dim un	<b>4</b>

Gwnaethom hefyd ofyn i ymatebwyr ddarparu unrhyw sylwadau eraill oedd ganddynt am ddarparu dadansoddiad a sylwadau. Roedd yn well gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr darllen disgrifiadau o allbynnau allweddol yn y bwletin ystadegol, a thynnwyd sylw at bwysigrwydd delweddau.

**Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf:** *"The statistical bulletin we find useful for extracting key information and summary statistics. The visualisations can save a lot of time and effort if they are a substitute for producing maps and charts ourselves. It would be useful to continue to provide summary statistics tables used for infographics / statistical bulletins as downloads."*

**Cyngor Sir Swydd Hertford:** *"Statistical bulletins help enormously to put the results in a wider context and, because they are written for a more general audience, help us to interpret the local results and use the correct terminology when making them available to less knowledgeable colleagues. Data visualisations are extremely useful for comparing local areas with other areas."*

Fodd bynnag, cawsom adborth ei bod hi'n anodd cael gafael ar y dadansoddiad a'r sylwadau ar gyfer data Cyfrifiad 2011 yng Nghyfrifiad 2011. Hefyd nododd defnyddwyr na ddylai'r broses o ryddhau data gael ei llesteirio am fod dadansoddiad a sylwadau ategol yn cael eu creu.

**Cyngor Bwrdeistref Stevenage:** *"Found that accompanying analysis and commentary was sometimes difficult to find. Understandably it was typically focussed on interpretation at a national level, but that was often only of contextual help for us."*

**Cymdeithas Ymchwil y Farchnad a Grŵp y Cyfrifiad a Geodemograffeg Cymdeithas Ymchwil y Farchnad:** *"We believe it is difficult for ONS to anticipate or deliver the analytical needs of a wide variety of Census data users. While some basic analysis should be delivered, the focus should be on streamlined delivery of data to allow users to do their own analysis. We would not want any delays in the release of Census outputs because the accompanying analysis is not ready in time. The speedy delivery of the outputs is of primary concern to us."*

## Ein hymateb – Ffyrdd ehangach o ddefnyddio data'r cyfrifiad:

Bwriadwn ddarparu dadansoddiad, sylwebaeth a delweddau er mwyn helpu i ategu data Cyfrifiad 2021. Byddwn yn adeiladu ar gynhyrchion dadansoddol blaenorol ac yn darparu dadansoddiad a dealltwriaeth fanylach. Rydym am gynorthwyo cymunedau i ddeall eu hanghenion a llywio'r gwaith o gyflwyno polisiau a darparu gwasanaethau. Gwneir hyn drwy ddadansoddi'r ystod lawn o bynciau'r cyfrifiad, ynghyd â ffynonellau data perthnasol eraill er mwyn archwilio themâu penodol, fel iechyd er enghraifft. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn "Helpu i Lunio Ein Dyfodol: Cyfrifiad o Boblogaeth a Thai yng Nghymru a Lloegr 2021"<sup>18</sup> sy'n amlinellu cynlluniau ar gyfer Cyfrifiad o boblogaeth a thai yng Nghymru a Lloegr 2021.

Rydym yn gweithio tuag at sicrhau bod data'r cyfrifiad a'r gwaith dadansoddi mor ddiddorol a hygyrch â phosibl i ystod eang o gynulleidfaoedd. Gwyddom y bu'n anodd dod o hyd i ddadansoddiad a sylwebaeth Cyfrifiad 2011. Rydym wedi gwella cynllun a gweithrediad gwefan SYG, a dylai fod yn haws i ddefnyddwyr ei defnyddio.

Byddwn yn dilyn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, er mwyn sicrhau bod amcangyfrifon yn cael eu cyhoeddi mewn modd amserol a'u bod yn cael eu dadansoddi a fydd yn meithrin dealltwriaeth ac yn dweud wrth ddefnyddwyr am y gymdeithas rydym yn byw ynddi. Byddwn yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer hyn yn agosach at ryddhau data Cyfrifiad 2021.

---

<sup>18</sup> <https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/censustransformationprogramme/legislationandpolicy/helpuilunioeindyfodolcyfrifiadoboblogaethathaiyngnghymrualloegr2021welshlanguageversion.pdf>

# Cymaroldeb amcangyfrifon Cyfrifiad 2021: Cysoni ledled y DU ac ystadegau'r DU

Mae SYG yn gyfrifol am ledaenu ystadegau Cyfrifiad 2021 ar gyfer y DU, lle y bydd y data a gasglwyd yn caniatáu hyn. Fel y nodwyd yn y Datganiad o Gytundeb ar gyfer cynnal cyfrifiadau 2021 ledled y DU, ein nod fydd cysoni cynnwys allbynnau Cyfrifiad 2021 lle y bo modd.

Roedd gennym ddi-ddordeb mewn nodi pa mor bwysig yw hi i ddefnyddwyr allu cael mynediad at ddata ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>192</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Nododd 64% fod gallu cael mynediad at ddata ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn bwysig neu'n bwysig iawn i'w gwaith
	Nododd 28% nad oedd yn bwysig iawn neu ei fod ddim yn bwysig o gwbl
	Nododd 8% nad oeddent yn siŵr

**Ffigur 24: Ymatebion i'r cwestiwn "Pa mor bwysig yw gallu cael mynediad at ddata ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer eich gwaith?"**






Roeddem hefyd am nodi sut y byddai defnyddwyr yn disgwyl cael mynediad at ddata'r DU.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>185</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Nododd 86% o ymatebwyr y byddent yn disgwyl gallu cael mynediad at ddata ar bob un o wledydd y DU ar un wefan
	Nododd 14% y byddent yn disgwyl ymweld â gwefan pob un o wledydd y DU i gael mynediad at ddata ar y wlad honno


**Ffigur 25: Ymatebion i'r cwestiwn "Sut byddech chi'n disgwyl cael mynediad at ddata ar gyfer y DU?"**



Roeddem hefyd am wybod ym mha lefel ddaearyddol o ddata'r DU roedd gan ddefnyddwyr ddiddordeb ynddi.

<b>Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn</b>	<b>178</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	Nododd 85% o ymatebwyr fod ganddynt y diddordeb mwyaf mewn cael ystadegau ar gyfer pob gwlad, yn hytrach na'r DU gyfan
	Nododd 61% o ymatebwyr y byddai ganddynt ddiddordeb yng nghyfansymiau ystadegol y DU
	Nododd 47% o ymatebwyr fod ganddynt ddiddordeb yn y ddau fath o ddata

**Ffigur 26: Ymatebion i'r cwestiwn "A oes gennych ddiddordeb yng nghyfansymiau ystadegol y DU, ystadegau ardal fach ar gyfer gwahanol ardaloedd ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, neu'r ddau?"**



Roeddem am i ddefnyddwyr ddweud wrthym am effaith ystadegau'r DU ar eu gwaith a sut y gallent ddisgwyl cael gafael ar y data.

## Defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar gyfer y DU

Dangosodd defnyddwyr sut roeddent wedi defnyddio ystadegau'r DU yn dilyn Cyfrifiad 2011.

Roedd data'r DU yn aml yn cael eu defnyddio fel meincnod dadansoddol er mwyn deall y darlun lleol yng nghyd-destun y DU.

**Cyngor Sir Swydd Gaerwrangon:** *"We need access to statistics on countries mainly for comparison purposes and to benchmark local values. This would usually either be UK or England. For context, it is important for us to know how Worcestershire and the areas within are doing compared to the national average for a large number of census outputs."*

**Cyngor Dinas Rhydychen:** *"We provide statistics about Oxford that use national UK statistics as benchmarks."*

**Cyngor Dinas Salford:** *"We are frequently asked for the national comparator whenever we support colleagues and stakeholders with their work. A UK comparator often useful as well as an England comparator depending on work requirements and data availability (we often get asked for a UK comparator and if it isn't available then we endeavour to provide a close match for comparison purposes for example GB or England). A lack of comparator options often makes it difficult to provide the requester with the information they want to get a true picture of how the local situation compares with the rest of the country for benchmarking and service planning purposes. Also, the UK provides the largest population as the highest available geographic level with which to compare data and trends. Examples where we have compared Salford with the UK covers a wide range of work including the State of the City Report 2016, ward & neighbourhood profiles, Orthodox Jewish Housing Study, Salford Workforce Equality Report..."*

**Cyngor Bwrdeistref Metropolitaidd Rotherham:** *"Comparison with the UK average rather than English average was beneficial for demonstrating the need for higher education provision, as qualification levels are higher in Scotland, raising the average."*

**Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin:** *"The need for UK statistics reflects the fact we have a UK Parliament. The Library provides research and analysis to MPs from all parts of the UK. The availability of statistics on a UK wide basis allows us to provide essential context to our users, so that MPs from all parts of the UK can understand the position of their constituency – or any other relevant area – relative to the rest of the country. Where possible, we already provide statistics on a UK wide basis in many House of Commons Library briefing papers."*

**Llywodraeth Cymru:** *"Comparing to other parts of the UK is useful in terms of policy context and development."*

**Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru:** *“Accessing UK data gives us the ability to make comparisons between population health in Wales and UK/English regions.”*

Roedd hefyd angen i ddefnyddwyr gael data'r DU er mwyn cymharu eu hardal ag ardaloedd tebyg eraill ledled y DU.

**Malcolm Brown:** *“I appreciate that Census outputs will not be the same in each UK Country but I often find it more useful to, say, compare Cornwall with rural local authorities in Wales and Scotland than metropolitan areas of England. It should be made as easy as possible to do that.”*

**Adran o'r llywodraeth:** *“Each country has their own definition of rural and conducts analysis according to their priorities. With Brexit, it will be important to have an understanding of issues affecting rural areas across the whole of the UK. Some analysis has already started to be done at the UK level, and this will become more important in a post-Brexit environment.”*

Caiff data'r DU eu defnyddio hefyd i lywio gwaith datblygu polisiau a monitro ar faterion sy'n effeithio ar y DU gyfan.

**Swyddfa Gartref:** *“The devolution of powers within the UK means analysis by region of the UK is key in policy development and monitoring. However, Immigration and Visa policy is primarily developed on a UK wide basis and therefore it is vital to have comparable UK aggregate data. The delay in being able to access UK wide data means that we have not been able to utilise it to its full potential. Timely UK wide 2021 Census data would be very useful to policy development and fulfil data obligations as set out below.*

*Member State obligations to EC partners (Eurostat) require submission of UK level data for publication in order to deliver comparisons across Members States within the EU. This would include cross tabulations of: passports held, housing tenure, occupation and other variables. Failure to provide this data may result in financial sanctions for the UK. UK-wide data also enables wider international comparisons to be made, as most other OECD (Organisation for Economic Co-operation and Development) countries collect information on citizenship and/or nationality in their Censuses.”*

## **Cael mynediad at ddata'r DU**

Hefyd cawsom adborth gan ddefnyddwyr ynghylch sut y byddent yn disgwyl cael mynediad at ddata'r DU. Dangosodd y sylwadau y byddai defnyddwyr yn hoffi gweld data'r DU ar gael o un pwynt mynediad. Adlewyrcha hyn y dystiolaeth a gyflwynir yn Ffigur 23, sy'n dynodi y byddai 86% o ymatebwyr i'r cwestiwn hwnnw yn hoffi cael mynediad at ddata drwy un pwynt mynediad.

**Cyngor sir:** *“Being a Local Authority, we need to place ourselves in the national context and having access to all UK data is useful. The problems with getting Scottish and Northern Irish data makes this work difficult. Being a rural authority,*

*it can often be the case that the areas of the UK that are most similar to us are Scottish and this data being a step more difficult to access has an impact on the ease of doing our work."*

**Cyngor Dinas Bryste:** *"Bristol is one of the 10 Core Cities in Great Britain. As such we often make comparisons with the other cities in this group which now includes Glasgow. A few times we haven't been able to make the necessary comparisons easily. It would be simplest if all the census data was available on one web site."*

**Sefydliad yr RAC:** *"We are a UK charity, working with small area statistics. Multiple websites add to our labour, and different outputs mean you have to go do more work to ensure comparability."*

## **Cysoni ledled y DU**

Hefyd, rhoddodd defnyddwyr adborth gwerthfawr ar gysoni allbynnau ledled y DU, yn enwedig o ran diffiniadau a'r allbynnau a ryddhawyd.

**Cyngor Dinas Salford:** *"We fully agree with the principle that all census outputs should have full UK harmonisation unless there is a strong case not to, such as different 'school qualifications', the 'welsh language' or the local question on 'when someone arrived in Northern Ireland'."*

**Cymdeithas Ymchwil y Farchnad, a Grŵp y Cyfrifiad a Geodemograffeg a Grŵp Defnyddwyr Dadansoddwyr Data Cymdeithas Ymchwil y Farchnad:** *"We create UK-wide geodemographic classifications and derived data products, e.g. CACI's Acorn classification, Experian's Mosaic classification, and Beacon Dodsworth's P2 People & Places classification. It is very important to us that we have UK wide harmonised statistics in terms of data definitions and outputs released. Of particular importance to us are consistent outputs across England, Wales and Scotland."*

**Cymdeithas Ymchwil y Farchnad, a Grŵp y Cyfrifiad a Geodemograffeg a Grŵp Defnyddwyr Dadansoddwyr Data Cymdeithas Ymchwil y Farchnad:** *"For the 2011 Census we had UK harmonised univariate outputs (which was a great success), but this was not the case for multivariate outputs. For 2021, we would like UK harmonised univariate and multivariate outputs."*

*In 2011, the UK univariate outputs were released around 6 months after each Census office had released their own univariate outputs. Timeliness is key to our users so we took the earlier outputs and created UK outputs ourselves before the UK release. Would not want any delays in the release of outputs to occur while waiting for one of the three Census offices to be ready to release their data for the UK output to be built.*

*We would like an agreed list of what is to be included as UK outputs before release so we can plan accordingly.*

*For 2011, ONS produced a daytime population and workplace bases, but this was not reciprocated for the rest of the UK, and the outputs produced were not that extensive particularly in the case of the daytime population. For 2021, we would like and hope that the daytime population and workplace bases are produced for the UK with an extensive set of outputs. We would also like these to be available via the flexible dissemination system."*

## **Ein hymateb – Cysoni ledled y DU ac ystadegau'r DU:**

Croesawn yr adborth hwn er mwyn helpu i bennu'r angen am ddata'r DU ac allbynnau wedi'u cysoni, lle bo modd. Mae'r adborth a gafwyd hefyd yn dangos pwysigrwydd sicrhau bod data'r DU ar gael o un pwynt mynediad er mwyn gwneud gwaith defnyddwyr yn fwy effeithlon.

Rydym eisoes wedi dechrau gweithio gyda'n cydweithwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau cysondeb newidynnau a lledaeniad amserol data ar gyfer y DU gyfan, a'n dewis opsiwn o ran gwneud hynny yw drwy un pwynt mynediad ar gyfer defnyddwyr. Rydym yn gweithio i sicrhau bod ateb technolegol ar gael i alluogi hyn i ddigwydd.

Dangosodd yr adborth a gawsom bwysigrwydd cael data'r DU i ddarparu meincnod dadansoddol, ac roedd rhywfaint o angen ymhlith defnyddwyr i gymharu data ledled y DU ar lefel ddaearyddol lai.

Byddwn yn ymchwilio i ddefnyddwyr ymhellach er mwyn nodi'r newidynnau, daearyddiaethau a seiliau poblogaeth sydd eu hangen wrth ryddhau data'r DU a sut y byddai defnyddwyr yn disgwyl cael gafael ar hynny.

Lle mae'r data a gesglir yn gyson ar draws swyddfeydd y cyfrifiad yn y DU, bydd canlyniadau ar gyfer Prydain Fawr a'r DU ar gael. I gydnabod pwysigrwydd darparu allbynnau cyson ledled y DU, mae'r Ystadegydd Gwladol a Chofrestrwyr Cyffredinol yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi llofnodi cytundeb ar sut y cynhelir y cyfrifiad yn 2021. Yn benodol, mae'n cynnwys llunio ystadegau cyson gan roi sylw penodol i gwestiynau cyffredin, seiliau poblogaeth, diffiniadau, methodolegau rheoli datgelu a fformatau allbynnau<sup>19</sup>.

Yn gyntaf byddwn yn cyflwyno canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr gerbron Senedd San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn eu cyhoeddi.

---


<sup>19</sup> <https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/legislationandpolicy>

# Cymaroldeb rhyngwladol canlyniadau Cyfrifiad 2021

Roeddem am nodi achosion lle'r oedd defnyddwyr wedi cymharu amcangyfrifon y DU â setiau data rhyngwladol yn dilyn Cyfrifiad 2011 a phwysigwydd hyn i'w gwaith.

Nifer yr ymatebion i'r cwestiwn	191
Prif ganfyddiadau	Dywedodd 80% nad oeddent wedi cymharu amcangyfrifon y DU â setiau data rhyngwladol
	Dywedodd 20% eu bod wedi gwneud hynny

**Ffigur 27: Ymatebion i'r cwestiwn "A ydych wedi cymharu amcangyfrifon y DU â setiau data rhyngwladol?"**



Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr roi enghreifftiau o gymharu data'r DU â setiau data rhyngwladol.

Cafwyd sawl ymateb a ddangosodd yr angen i gymharu data rhyngwladol â data'r cyfrifiad, yn enwedig yn yr hinsawdd wleidyddol ac economaidd Ewropeaidd a byd-eang newidiol sydd ohoni.

**Cyngor Dinas Southampton:** "When doing a Building European Environmental and Maritime Skills (BEEMS) project we compared the UK, Southampton and England with other maritime based economies."

**Awdurdod lleol:** *“We have used Eurostat and US government open data to compare the ageing population of our local authority against other global areas.”*

**Cyngor Swydd Amwythig:** *“Shropshire and the LEP are very focused on the County’s role within the global economy, not just the UK and Europe. Often international comparators are required for setting the context and for monitoring Shropshire economic health. This information informs the LEP / Shropshire’s Economic Growth Strategy and is included in the Shropshire Economic Profile.”*

**Swyddfa Gartref:** *“Home Office Science: Migration and Border Analysis is the UK’s national contact point for the European migration network (EMN). The purpose of the EMN is to provide up-to-date, objective, reliable and comparable information on migration and asylum to inform policy development at National and EU levels. Census 2011 migration fields (such as passports held) has enabled the UK to fulfil its EMN obligation to produce national thematic studies to feed into European-level synthesis reports. For example, in 2014 the EMN produced a study looking into migrants’ access to social security and healthcare. Census 2011 data was used to inform the picture for the UK identifying, for example, differences in employment rates by passports held and allowing Europe wide comparisons.”*

**Cyngor Swydd Amwythig:** *“It is likely that as the UK leaves the European Union over the next two years and establishes trade agreements with new global partners, there will be an increased demand for intelligence that enables comparison with international datasets.”*

**Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf:** *“Since the EU Referendum we have increased our economic monitoring work. International comparisons, particularly to European comparator cities, is useful in this line of work and will be something we will be doing increasingly in the coming months and years.”*

## **Ein hymateb – Cymaroldeb rhyngwladol canlyniadau Cyfrifiad 2021:**

Dengys yr ymatebion a gawsom bwysigrwydd gallu cymharu amcangyfrifon y DU â setiau data rhyngwladol i ddefnyddwyr. Mae SYG yn cydnabod pwysigrwydd cynhyrchu data ar lefel y DU y gellir eu cymharu’n rhyngwladol.

Roedd rhan helaeth o’r data ar lefel y DU a gynhyrchwyd fel rhan o Gyfrifiad 2011 yn ofynnol o dan ddeddfwriaeth cyfrifiad yr Undeb Ewropeaidd (UE). Bydd angen i ni adolygu’r union gamau a gymerir gennym wrth i ganlyniad negodiadau ymadael â’r UE ddod yn gliriach, ond mae rhai manteision clir i gynhyrchu ystadegau cyfrifiad ar lefel y DU sy’n ofynnol gan yr UE. Maent yn helpu i fodloni’r galw am allbynnau wedi’u cysoni ar gyfer y DU, yn darparu data y gellir eu cymharu dros amser ac â gwledydd Ewropeaidd eraill, ac yn ffurfio sail data a roddir i sefydliadau rhyngwladol eraill fel y Cenhedloedd Unedig. Mae cryn dipyn o’r data sydd eu hangen yn cael eu cynhyrchu beth bynnag.



Cytunwyd ar y fethodoleg rheoli datgelu ystadegol arloesol a fydd yn sail i'r system ledaenu hyblyg fel y dull diofyn o ddiogelu hypergiwbiau (setiau data) ledled yr UE yn rownd cyfrifiad 2020<sup>20</sup>.

Byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymadau rhyngwladol i gyflenwi data'r cyfrifiad i Gomisiwn Ystadegol y Cenhedloedd Unedig yn dilyn Cyfrifiad 2021.

---

<sup>20</sup> [https://ec.europa.eu/eurostat/cros/system/files/recommendations\\_for\\_the\\_protection\\_of\\_hypercubes.pdf](https://ec.europa.eu/eurostat/cros/system/files/recommendations_for_the_protection_of_hypercubes.pdf)

# Camau nesaf

Unwaith eto, hoffem ddiolch i bawb a roddodd eu barn i ni drwy ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r dystiolaeth rydych wedi ei rhoi i ni yn werthfawr tu hwnt er mwyn ein helpu i nodi anghenion defnyddwyr o ran allbynnau Cyfrifiad 2021 a blaenoriaethu ein hymchwil yn y dyfodol. Bydd cynllun a chynnwys terfynol allbynnau a dull lledaenu cyffredinol Cyfrifiad 2021 yn cael eu llywio gan fethodolegau ystadegol a thechnegol, ond, yn bwysicaf oll, anghenion defnyddwyr.

Yn 2019, bydd SYG yn cynnal ymarfer ar gyfer elfennau casglu, prosesu data a lledaenu'r cyfrifiad. Byddwn yn asesu'r rhyngwynebau a'r dibyniaethau, y prosesau, dulliau a systemau sy'n ymwneud ag allbynnau a lledaenu er mwyn sicrhau ein bod yn barod ac wedi ein cydgysylltu i gyflwyno allbynnau Cyfrifiad 2021. Bydd hyn yn cynnwys profi ymarferoldeb y system ledaenu hyblyg gyda phroses rheoli datgelu ystadegol ddynamig ar waith ar lwyfan technegol SYG. Bydd hefyd yn cynnwys creu cynhyrchion microdata a tharddiad-cyrchfan. Ni fyddwn yn cyhoeddi unrhyw ddata yn allanol o Ymarfer 2019.

Rydym yn cydnabod bod ystod eang o ddefnyddwyr data'r cyfrifiad, a bod ganddynt lawer o ddiddordebau ac anghenion gwahanol. Am y rheswm hwn, ni fydd yn ddichonadwy i ni ymgynghori â holl ddefnyddwyr data'r cyfrifiad i'r un graddau nac i'r un manylder. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gyda defnyddwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd drwy gydol y gwaith o gynllunio a lledaenu allbynnau.

Byddwn hefyd yn parhau i brofi ymarferoldeb ein system ledaenu arfaethedig ac yn gwneud penderfyniadau ar sail ymchwil defnyddwyr helaeth. Mae gwneud gwaith ymchwil ar ddefnyddwyr yn cynnwys ymgysylltu â defnyddwyr, ar sail un i un yn aml, er mwyn nodi eu hanghenion a'u problemau penodol, cyn casglu eu sylwadau a'u hadrodd nôl i dîm y prosiect er mwyn llywio'r gwaith cynllunio yn y dyfodol.

Os hoffech roi mwy o adborth i ni, anfonwch e-bost at dîm Allbynnau a Lledaenu Cyfrifiad 2021 yn [census.outputs@ons.gov.uk](mailto:census.outputs@ons.gov.uk) neu ewchi'n [tudalennau gwe](#).